

Senedd Cymru

Y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol

Profiadau menywod yn y system cyfiawnder troseddol

Mawrth 2023



Senedd Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl. Mae'r Senedd, fel y'i gelwir, yn deddfu ar gyfer Cymru, yn cytuno ar drethi yng Nghymru, ac yn dwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

Gallwch weld copi electronig o'r ddogfen hon ar wefan y Senedd:
www.senedd.cymru/SeneddCydraddoldeb

Gellir cael rhagor o gopïau o'r ddogfen hon mewn ffurfiau hygyrch, yn cynnwys Braille, print bras, fersiwn sain a chopïau caled gan:

Y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol
Senedd Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1SN

Ffôn: **0300 200 6565**

E-bost: **SeneddCydraddoldeb@senedd.cymru**

Twitter: **[@SeneddCydraddoldeb](https://twitter.com/SeneddCydraddoldeb)**

© **Hawlfraint Comisiwn y Senedd 2023**

Ceir atgynhyrchu testun y ddogfen hon am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng cyn belled ag y caiff ei atgynhyrchu'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol na difrïol. Rhaid cydnabod mai Comisiwn y Senedd sy'n berchen ar hawlfraint y deunydd a rhaid nodi teitl y ddogfen.

Profiadau menywod yn y system cyfiawnder troseddol

Mawrth 2023



Am y Pwyllgor

Sefydlwyd y Pwyllgor ar 23 Mehefin 2021. Ceir ei gylch gwaith yn:
www.senedd.cymru/SeneddCydraddoldeb

Aelodau cyfredol y Pwyllgor:



**Cadeirydd y Pwyllgor:
Jenny Rathbone AS**
Llafur Cymru



Jane Dodds AS
Democratiaid Rhyddfrydol Cymru



Altaf Hussain AS
Ceidwadwyr Cymreig



Sarah Murphy AS
Llafur Cymru



Ken Skates AS
Llafur Cymru



Sioned Williams AS
Plaid Cymru

Mynychodd yr Aelod a ganlyn fel dirprwy yn ystod yr ymchwiliad hwn.



Jack Sargeant AS
Llafur Cymru

Cynnwys

Rhagair y Cadeirydd	5
Argymhellion	7
1. Cyflwyniad.....	10
Y cefndir	10
Casglu tystiolaeth	10
Cefndir y polisi.....	11
Adroddiad Corston	13
Llywodraeth y DU	14
Llywodraeth Cymru.....	14
2. Glasbrint Cyfiawnder i Fenywod yng Nghymru	16
Ymyrryd yn gynnar ac atal.....	17
Dull System Gyfan y Rhaglen Fraenaru i Fenywod.....	19
Canolfannau Menywod	20
Safbwynt Llywodraeth Cymru	22
Ein barn ni	24
3. Lleihau dedfrydau o garchar	29
Y Ganolfan Breswyl i Fenywod arfaethedig.....	31
Datrysiadau y Tu Allan i'r Llys	36
Adroddiadau Cyn Dedfrydu.....	37
Safbwynt Llywodraeth Cymru	37
Ein barn ni	39
4. Darpariaeth a chymorth yn y ddalfa.....	42

Effaith carcharu mamau ar blant.....	43
Gofal iechyd a chamddefnyddio sylweddau.....	45
Dadwenwyno preswyl.....	46
Safbwynt Llywodraeth Cymru.....	47
Ein barn ni.....	48
5. Cymorth ailsefydlu.....	51
Llety.....	52
Safbwynt Llywodraeth Cymru.....	53
Ein barn ni.....	54
Atodiad A: Rhestr o sesiynau tystiolaeth lafar.....	56
Atodiad B: Rhestr o'r dystiolaeth ysgrifenedig.....	57
Atodiad C: Gwybodaeth ychwanegol.....	58

Rhagair y Cadeirydd

Yn 2007, galwodd adroddiad nodedig gan y Farwnes Corston am ymagwedd cwbl wahanol ar gyfer menywod yn y system cyfiawnder troseddol. Mae'r rhan fwyaf o fenywod yn cael dedfrydau byr o garchar; yn ddigon hir i gael effaith negyddol ar eu bywydau ond yn rhy fyr i sicrhau cymorth ac adsefydlu priodol. Roedd Corston yn cynnig defnyddio rhwydwaith o ddarpariaeth gymunedol i fynd i'r afael ag anghenion cymhleth troseddwr benywaidd.

Dros 15 mlynedd yn ddiweddarach, siomedig o araf fu'r cynnydd o ran gweithredu argymhellion Corston. Mae llawer gormod o fenywod yn parhau i gael dedfrydau byr yn y carchar, sy'n hynod ddrud a chyda chanlyniadau gwael iawn.

Roedd ein hymchwiliad yn edrych ar yr hyn y mae Llywodraeth Cymru yn ei wneud i gynorthwyo menywod yn y system cyfiawnder troseddol yn y gobaith o ganfod meysydd i gyflymu'r newid. Yn benodol, gwnaethom edrych ar y Glasbrint Cyfiawnder i Fenywod, a gyhoeddwyd yn 2019. Roedd yn cydnabod bod yr angen i atal menywod rhag mynd i mewn i'r system cyfiawnder troseddol yn brif flaenoriaeth.

Er nad yw cyfiawnder wedi'i ddatganoli, mae menywod fel mater o drefn yn dod i gysylltiad â gwasanaethau sydd wedi'u datganoli fel iechyd, addysg a gofal cymdeithasol a bydd angen cymorth arnynt gan y gwasanaethau hynny. Rydym yn arbennig o ddiolchgar i'r menywod a rannodd eu teithiau a'u profiadau personol gyda ni.

Mae'r rhan fwyaf o fenywod yn y system cyfiawnder troseddol yn ddioddefwyr eu hunain. Mae dedfrydau o garchar yn drawmatig i fenywod sydd eisoes yn eithriadol o agored i niwed. Nid menywod yn unig sy'n profi'r trawma hwn; yn gyffredinol mae'n cael effaith ddinistriol ar eu plant.

Un thema bwysig oedd y rôl werthfawr y gall Canolfannau Menywod yn y gymuned yn ei chwarae wrth ddarparu dull cydweithredol, wedi'i deilwra i gefnogi menywod a helpu i ddargyfeirio unigolion o lwybr i'r system cyfiawnder troseddol. Gwnaethom hefyd ddysgu mwy am y cynigion ar gyfer Canolfan Breswyl i Fenywod arfaethedig yng Nghymru. Mae dedfrydau cymunedol yn hanfodol, ond mae angen mwy o eglurder ac ymgysylltu i sicrhau y bydd hwn yn brosiect llwyddiannus i'r menywod a'r cymunedau dan sylw.

Clywsom am yr anawsterau lluosog sy'n wynebu menywod yn y carchar. Cawsom ein synnu o ddysgu bod dedfrydau byr o garchar, hyd yn oed mor fyr ag wythnos, yn parhau er nad oes ganddynt fawr ddim budd. Roeddem yn bryderus o glywed bod menywod Cymru yn wynebu heriau ychwanegol yn y ddalfa o ran cael gofal iechyd cyson a meddyginiaethau wedi'u

rhagnodi. Roeddem yn siomedig o ddysgu, ar ôl iddynt gael eu rhyddhau, nad oes gan lawer o fenywod fynediad at lety a chymorth addas, a heb hynny bydd llawer yn mynd yn ôl i'r system cyfiawnder troseddol yn y pen draw.

Mae'r hyn y mae Llywodraeth Cymru wedi bwriadu ei gyflawni drwy ei Glasbrint Cyfiawnder i Fenywod ar y cyd â'r Weinyddiaeth Gyfiawnder i'w ganmol ac rydym yn cymeradwyo'r dull cydweithredol hwn. Fodd bynnag, mae ein hymchwiliad yn helpu i ddangos pam nad yw'r trefniadau presennol ar gyfer llywodraethu a gweinyddu cyfiawnder troseddol yng Nghymru yn gynaliadwy. Mae'r rhwystredigaethau sy'n gysylltiedig â'r cyfyngiadau o ran yr hyn sydd o fewn pwerau Llywodraeth Cymru yn amlwg. Mae'r Prif Weinidog wedi sôn am 'beryl moesol' o ran bod Llywodraeth Cymru yn ariannu mentrau sy'n ymwneud â chyfiawnder y mae mawr eu hangen yng Nghymru a fyddai'n cael eu hariannu gan Lywodraeth y DU yn Lloegr. Mae ein hadroddiad yn argymhell bod angen egluro pwy sy'n gyfrifol am beth o dan y setliad datganoli presennol.

Mae angen darpariaeth fwy cyson o wasanaethau cymorth i fenywod sydd mewn perygl o fynd i mewn system cyfiawnder troseddol neu sydd eisoes yn rhan o'r system ledled Cymru, gan gynnwys cyfres o opsiynau dedfrydu cymunedol ar gyfer troseddau nad ydynt yn dreisgar. Heb y cysondeb hwn, bydd menywod yn parhau i gael dedfrydau carchar byr aneffeithiol, gyda goblygiadau dinistriol i'w plant. Rydym yn croesawu'r hyn sy'n cael ei wneud i atal y cylch hwn o drawma a gwastraffu arian cyhoeddus. Gobeithiwn y bydd yr argymhellion a nodir yn ein hadroddiad yn helpu i gyflymu'r gwaith o gyflawni'r weledigaeth a nodwyd gan Corston yr holl flynyddoedd yn ôl.

Jenny Rathbone AS

Cadeirydd y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol

Argymhellion

Argymhelliad 1. Dylai Llywodraeth Cymru fapio cost y gwasanaethau y mae'n eu darparu i nodi'r rhai y mae'n gyfrifol amdanynt fel rhan o'r setliad datganoli presennol, a'r rhai sy'n dod o dan gyfrifoldeb y Weinyddiaeth Gyfiawnder ar hyn o bryd. Dylai'r gwaith hwn gael ei wneud erbyn mis Mehefin 2023 a dylai Llywodraeth Cymru roi'r wybodaeth ddiweddaraf i ni am y cynnydd..... Tudalen 26

Argymhelliad 2. Dylai Llywodraeth Cymru ymdrechu i gael cyfrifoldeb datganoledig am gyfranogiad menywod yn y system cyfiawnder troseddol. Tudalen 26

Argymhelliad 3. Er mwyn sicrhau bod y Glasbrint Cyfiawnder i Fenywod yn cael ei wreiddio, dylai Llywodraeth Cymru adeiladu ar ei heglurhad gweledol o waith y Glasbrint a darparu trosolwg manwl o'r holl gynlluniau sy'n mynd rhagddynt a'r cynlluniau peilot, gan nodi pwy sy'n gyfrifol am gyflawni, amserlenni, camau a gymerwyd ac adroddiadau, i sicrhau bod pob sefydliad sydd â diddordeb mewn cefnogi menywod yn y system cyfiawnder troseddol yn ymwybodol o'r hyn sy'n digwydd ar lawr gwlad. Dylid cwblhau'r gwaith hwn erbyn mis Mehefin 2023..... Tudalen 26

Argymhelliad 4. Dylai Llywodraeth Cymru gyhoeddi diweddariadau gweithredu yn flynyddol, sy'n cynnwys:

- disgrifiad manylach o gynnydd yn erbyn y nodau sydd wedi'u datgan yn y Glasbrint;
- statws ac amserlen y cynlluniau peilot sydd ar waith gan gynnwys y camau nesaf.
.....Tudalen 26

Argymhelliad 5. Dylai Llywodraeth Cymru nodi sut y mae'n bwriadu gweithio gyda phartneriaid i gynyddu ei gweithgarwch o ran Dull System Gyfan y Rhaglen Fraenaru i Fenywod ar ymyrraeth gynnar ac atal fel ei fod yn cyrraedd pob rhan o Gymru..... Tudalen 27

Argymhelliad 6. Dylai Llywodraeth Cymru weithio'n agos gyda Gwasanaeth Carchardai a Phrawf EF a phartneriaid lleol i nodi ble y dylid datblygu Canolfannau Menywod ymhellach. At hynny, dylai Llywodraeth Cymru nodi'r cynlluniau sydd ganddi hi a phartneriaid eraill i ddatbygu ffrydiau ariannu cynaliadwy i gefnogi'r gwaith o greu'r Canolfannau hyn a'r gwaith a wneir ganddynt..... Tudalen 27

Argymhelliad 7. Dylai Llywodraeth Cymru weithio gyda'r Weinyddiaeth Gyfiawnder a Gwasanaeth Carchardai a Phrawf EF i nodi bylchau ac i sicrhau bod digon o opsiynau eraill yn y gymuned heblaw am garchar ar gael yn benodol i fenywod ledled Cymru. Tudalen 39

Argymhelliad 8. Rhaid i Lywodraeth Cymru weithio gydag adrannau cyfatebol yn y Weinyddiaeth Gyfiawnder a Gwasanaeth Carchardai a Phrawf EF i fynegi'n gliriach y diben a'r gwasanaethau y bydd y Ganolfan Breswyl i Fenywod yn eu cynnig..... Tudalen 40

Argymhelliad 9. Dylai Llywodraeth Cymru weithio gyda'r Weinyddiaeth Gyfiawnder i sicrhau bod Cymru'n cael ei chynrychioli wrth ddatblygu'r cyfarwyddiadau a'r canllawiau gweithredol sy'n ymwneud â Chanolfannau Preswyl i Fenywod. Tudalen 40

Argymhelliad 10. Dylai Llywodraeth Cymru nodi pa gyfraniad ariannol y disgwylir iddi ei wneud i gefnogi menywod yn y ganolfan beilot, pe bai'n mynd yn ei blaen, a beth allai'r goblygiadau ariannu fod i Ddinas a Sir Abertawe a'r Bwrdd Iechyd Lleol. Tudalen 40

Argymhelliad 11. Dylai Llywodraeth Cymru weithio gyda Gwasanaeth Carchardai a Phrawf EF i fonitro'r defnydd o Adroddiadau Cyn Dedfrydu a nodi anghysondebau, gan gynnwys yr effaith ar les plant. Dylai Llywodraeth Cymru, ar y cyd â Gwasanaeth Carchardai a Phrawf EF, nodi sut y mae'n bwriadu sicrhau defnydd mwy cyson a gwell o Adroddiadau Cyn Dedfrydu ledled Cymru. Tudalen 41

Argymhelliad 12. Dylai Llywodraeth Cymru drafod â'r Ymddiriedolaeth Cyngor a Gofal Carchardai (PACT) i sicrhau bod carcharorion yn cael gwybod am y cymorth sydd ar gael iddynt, gan gynnwys sut i gysylltu ag Aelodau etholedig o'u hetholaethau cartref, i sicrhau bod pobl yn cael mynediad cyfartal at y gwasanaethau y mae ganddynt hawl iddynt. Tudalen 48

Argymhelliad 13. Dylai Llywodraeth Cymru weithio gyda'r Weinyddiaeth Gyfiawnder a Gwasanaeth Carchardai a Phrawf EF i:

- gynnal gwerthusiad ffurfiol o'r prosiect Ymweld â Mam;
- asesu a oes digon o adnoddau ar gael i hwyluso gwaith sy'n galluogi teuluoedd i gadw mewn cysylltiad fel ymweliadau 'purple visits'. Tudalen 49

Argymhelliad 14. Dylai Llywodraeth Cymru greu canllawiau wedi'u teilwra ar gyfer awdurdodau lleol i sicrhau bod menywod yn cael eu haduno â'u plant mewn ffordd sy'n canolbwyntio ar y plentyn yn dilyn dedfryd o garchar. Tudalen 49

Argymhelliad 15. Dylai Llywodraeth Cymru nodi pa ddarpariaeth ddadwenwyno breswyl sydd ar gael i fenywod yn y system cyfiawnder troseddol, a sut y caiff ei darparu.
..... Tudalen 50

Argymhelliad 16. Dylai Llywodraeth Cymru rannu ei barn ar yr adolygiad sydd ar y gweill gan GIG Lloegr ar ôl iddo gael ei gyhoeddi a nodi unrhyw gamau y mae'n bwriadu eu cymryd o ganlyniad i ganfyddiadau'r adolygiad hwnnw. Tudalen 50

Argymhelliad 17. Dylai Llywodraeth Cymru weithio gyda Gwasanaeth Carchardai a Phrawf EF ac awdurdodau lleol i gael Cytundebau Lefel Gwasanaeth â'r 16 awdurdod lleol arall, archwilio opsiynau ar gyfer llety â chymorth i fenywod risg isel sy'n agored i niwed a gweithio gyda Gwasanaeth Carchardai a Phrawf EF i ddarparu safleoedd cymeradwy ar gyfer menywod risg uchel. Dylid gwneud y gwaith hwn cyn hydref 2023..... Tudalen 55

Argymhelliad 18. Dylai Llywodraeth Cymru edrych ar enghreifftiau o arfer gorau ac arloesi i weld pa atebion llety y gellid eu datblygu yng Nghymru..... Tudalen 55

1. Cyflwyniad

Mae menywod sy'n cyflawni troseddau fel arfer ymhlith y rhai sydd fwyaf agored i niwed a'r mwyaf difreintiedig yn y gymdeithas, ac yn aml mae ganddynt anghenion lluosog a chymhleth. Mae menywod bellach yn cyfrif am tua 5 y cant o boblogaeth carchardai, ac amcangyfrifir bod hynny ddwywaith cymaint ag yr oedd 20 mlynedd yn ôl.¹

Y cefndir

1. Cytunodd y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol i gynnal ymchwiliad i brofiadau menywod yn y system cyfiawnder troseddol yn ei gyfarfod ar 16 Mai 2022. Diben yr ymchwiliad oedd canolbwyntio ar y gwasanaethau i fenywod yn y system cyfiawnder troseddol, a gwella dealltwriaeth o anghenion a gwendidau penodol menywod sy'n troseddu.
2. Mae'r manylion llawn am gefndir yr ymchwiliad hwn, gan gynnwys y cylch gorchwyl, ar gael ar [**dudalen hafan yr ymchwiliad.**](#)

Casglu tystiolaeth

3. Casglodd y Pwyllgor dystiolaeth drwy ymgynghoriad cyhoeddus, sesiynau tystiolaeth lafar, grwpiau ffocws ac ymweliadau â CEF Eastwood Park yn Swydd Gaerloyw a CEF Styal yn Swydd Gaer. Mae rhagor o fanylion am yr ymweliadau â'r carchardai a'r gweithgareddau ymgysylltu a gynhaliwyd ar gael yng nghrynodeb y gwaith ymgysylltu.²
4. Rhoddodd y Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol (y Gweinidog) dystiolaeth i'r Pwyllgor ar 12 Rhagfyr 2022.³
5. Mae'r Atodiad yn cynnwys rhestr lawn o'r dystiolaeth a gasglwyd.

¹ [Ymddiriedolaeth Diwygio Carchardai. Why focus on reducing women's imprisonment?. Gorffennaf 2021](#)

² [Crynodeb o'r gwaith ymgysylltu](#)

³ [Y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol. 12 Rhagfyr 2022](#)

6. Hoffai'r Pwyllgor ddiolch i bawb a gyfrannodd at yr ymchwiliad hwn, yn enwedig y menywod a ymgysylltodd â ni yn ystod y grwpiau ffocws ac a rannodd eu profiadau bywyd gyda'r fath onestrwydd.

Os yw unrhyw un o'r materion yn yr adroddiad hwn wedi effeithio arnoch chi neu rywun rydych chi'n ei adnabod, mae nifer o sefydliadau a all roi cyngor diduedd yn rhad ac am ddim i chi:

Ymddiriedolaeth Nelson: 01453 885633

Canolfan Merched Gogledd Cymru: 01745 339331

Ymddiriedolaeth Cyngor a Gofal Carchardai (PACT): 0808 808 2003

Cefndir y polisi

7. Yn ôl yr Ymddiriedolaeth Diwygio Carchardai⁴:

- mae 99 o fenywod wedi marw yn y carchar yng Nghymru a Lloegr ers 2010; achosion o hunanladdiad oedd bron i ddwy o bob pump o'r marwolaethau hynny;
- ar gyfartaledd, mae 600 o fenywod beichiog yn cael eu cadw yn y carchar bob blwyddyn;
- mae cyfraddau hunan-niweidio yng ngharchardai menywod wedi codi 20 y cant yn ystod y degawd diwethaf.

8. Mae'r Ymddiriedolaeth Diwygio Carchardai yn dweud bod menywod yn y carchar yn fwy tebygol na dynion o wneud y canlynol:

- dweud bod ganddynt broblemau iechyd meddwl (71 y cant o fenywod o'u cymharu â 47 y cant o ddynion), gyda thua hanner o fenywod yn dioddef o orbryder ac iselder yn y carchar;
- dweud eu bod wedi cael eu cam-drin yn emosiynol, yn gorfforol neu'n rhywiol pan oeddent yn blant (53 y cant o fenywod o'u cymharu â 27 y cant o ddynion);
- troseddu i helpu rhywun arall oherwydd eu bod yn defnyddio cyffuriau (48 y cant o fenywod o'u cymharu â 22 y cant o ddynion);

⁴ Ymddiriedolaeth Diwygio Carchardai. Why focus on reducing women's imprisonment?. Gorffennaf 2021

- cael eu carcharu am eu trosedd gyntaf (23 y cant o fenywod o'u cymharu â 14 y cant o ddynion).

9. Mae cyfiawnder a charchardai yn gyfrifoldebau sydd wedi'u cadw'n ôl gan Senedd y DU a Llywodraeth y DU ar hyn o bryd; ond, mewn llawer o feysydd mae'r system cyfiawnder troseddol yn rhyngweithio â chyfrifoldebau a gwasanaethau sydd wedi'u datganoli, gan gynnwys addysg a hyfforddiant, gwasanaethau iechyd, tai, llywodraeth leol, lles cymdeithasol a'r Gymraeg.

10. Cyfrifoldeb Gwasanaeth Carchardai a Phrawf Ei Fawrhydi⁵, sy'n gweithredu ledled Cymru a Lloegr, yw troseddwr sy'n oedolion ac sy'n cael dedfrydau cymunedol neu garcharol. At hynny, mae'n gyfrifol am wasanaethau adsefydlu. Mae Gwasanaeth Carchardai a Phrawf EF (HMPPS) yng Nghymru yn gweithio ar y cyd â Llywodraeth Cymru i ddarparu gwasanaethau rheoli troseddwr mewn carchardai yn ogystal â gwasanaethau prawf ac adsefydlu i leihau aildroseddu.

11. Nid oes yr un carchar i fenywod yn unig yng Nghymru. Fel arfer, bydd menywod o dde Cymru sy'n cael eu dedfrydu i garchar yn mynd i CEF Eastwood Park yn swydd Gaerloyw ac, yn y gogledd, bydd menywod yn mynd i CEF Styal yn swydd Gaer.

12. Ar 3 Chwefror 2023, cyhoeddodd Prif Arolygydd Carchardai EF adroddiad ar arolygiad dirybudd o CEF Eastwood Park.⁶

13. Cynhaliwyd yr arolygiad ym mis Hydref 2022, cyn ein hymweliad ar 7 Tachwedd; nid oeddem yn ymwybodol bod yr arolygiad wedi'i gynnal. Roedd yn nodi pryderon mawr gan gynnwys prinder staff aciwt, niferoedd uchel o fenywod yn adrodd am broblemau iechyd meddwl, amgylchedd 'echrydus' yn un o'r unedau preswyl ac arafwch wrth ailgyflwyno cymorth i helpu menywod i gynnal perthnasoedd â'u plant a theuluoedd. Cyhoeddodd y Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol ddatganiad ysgrifenedig mewn ymateb i'r adroddiad ar yr arolygiad ar 8 Chwefror 2023.⁷

⁵ Sef Gwasanaeth Cenedlaethol Rheoli Troseddwr, gynt

⁶ Prif Arolygydd Carchardai EF, [Report on an unannounced inspection of HMP/YOI Eastwood Park](#), Chwefror 2023

⁷ Llywodraeth Cymru, [Datganiad Ysgrifenedig: HMP Eastwood Park – adroddiad ar arolwg dirybudd](#), Chwefror 2023

Adroddiad Corston

- 14.** Yn 2007, cyhoeddodd y Farwnes Corston adroddiad pwysig. Yn *Review of Women with Particular Vulnerabilities in the Criminal Justice System* (adroddiad Corston)⁸, nodwyd bod menywod ar y cyfan yn hynod agored i niwed a bod ganddynt amrywiaeth o anghenion cymhleth sy'n wahanol i anghenion dynion sy'n troseddu.
- 15.** Gwnaeth adroddiad Corston weddnewid y ffordd y meddylir am fenywod â'r system cyfiawnder troseddol, gan gydnabod yr effaith barhaol ar y menywod eu hunain yn ogystal â'u plant. Roedd yn argymhell defnydd mwy cyson o ddedfrydau cymunedol, gyda neilltuo dedfrydau o garchar ar gyfer y troseddwyr mwyaf eithafol a threisgar.
- 16.** Ddeng mlynedd ar ôl cyhoeddi adroddiad Corston, nododd elusen Women in Prison mai ychydig o gynnydd a fu o ran disodli carchardai menywod gyda chanolfannau carcharu aml-swyddogaeth, ac roedd dedfrydau o garchar yn dal i gael eu defnyddio ar gyfer dedfrydau di-drais.⁹
- 17.** Yn 2017, trafododd Adolygiad Farmer bwysigrwydd cysylltiadau teuluol a chysylltiadau perthynol eraill i ailsefydlu carcharorion.¹⁰ Er bod yr adolygiad yn canolbwyntio'n bennaf ar garcharorion gwrywaidd, rhan o gylch gwaith yr Arglwydd Farmer oedd dysgu o'r hyn sy'n gweithio'n dda i fenywod yn y carchar a'u teuluoedd. Canfu adolygiad dilynol, y Farmer Review for Women, a gyhoeddwyd yn 2019, fod perthnasau teuluol a pherthnasoedd eraill yn 'hollol hanfodol' er mwyn adsefydlu troseddwyr benywaidd.¹¹ Cyhoeddwyd adroddiad cynnydd ar y Farmer Review for Women ym mis Ionawr 2023.¹²
- 18.** Mewn ymchwiliad yn 2021-22 o'r enw Women in Prison, dywedodd Pwyllgor Cyfiawnder Senedd y DU mai cynnydd cyfyngedig sydd wedi'i wneud o ran datblygu dewisiadau heblaw dedfrydau o garchar i fenywod, a galwodd am ganolbwyntio ar yr heriau penodol sy'n wynebu menywod sy'n mynd i'r system carchardai, gan gynnwys mwy o gamau i wneud yn siŵr bod perthnasoedd teuluol hanfodol yn cael eu cynnal.¹³

⁸ Swyddfa Gartref Llywodraeth y DU, [A report by Baroness Jean Corston, a Review of Women with Particular Vulnerabilities in the Criminal Justice System](#), Mawrth 2007

⁹ [Women in Prison, The Corston Report: 10 years on](#), Mehefin 2017.

¹⁰ Y Weinyddiaeth Gyfiawnder, [The Importance of Strengthening Prisoners' Family Ties to Prevent Reoffending and Reduce Intergenerational Crime](#), Awst 2017

¹¹ Llywodraeth y DU, [Importance of strengthening female offenders' family and other relationships to prevent reoffending and reduce intergenerational crime](#), Mehefin 2019

¹² Y Weinyddiaeth Gyfiawnder, [Progress Report: Farmer Review for Women](#), Ionawr 2023

¹³ [Pwyllgor Cyfiawnder Senedd y DU, Women in Prison inquiry](#), Gorffennaf 2022.

Llywodraeth y DU

19. Cyhoeddodd Llywodraeth y DU y Strategaeth Troseddwyd Benywaidd yn 2018.¹⁴ Nod y Strategaeth oedd lleihau cysylltiad menywod â'r system cyfiawnder troseddol ac, yn benodol, nifer y menywod sy'n destun dedfrydau o garchar tymor byr. Roedd yn ceisio cynyddu'r cyfleoedd i ddargyfeirio menywod o'r ddalfa, trwy ddefnyddio cynlluniau fel Datrysiadau y Tu Allan i'r Llys (OOCs), sy'n caniatáu i'r heddlu ymdrin â throseddau lefel isel heb droi at y llysoedd. Mae'r strategaeth yn nodi tair blaenoriaeth:

- llai o fenywod yn dod i mewn i'r system cyfiawnder troseddol;
- llai o fenywod yn y ddalfa (yn enwedig ar ddedfrydau tymor byr) a chyfran uwch o fenywod yn cael eu rheoli yn y gymuned yn llwyddiannus; a
- gwell amodau ar gyfer y rheini sydd yn y ddalfa.

20. Cyhoeddodd Llywodraeth y DU Gynllun Cyflawni ar gyfer Strategaeth Troseddwyd Benywaidd 2022-25 ar 31 Ionawr 2023.¹⁵

Llywodraeth Cymru

21. Cyhoeddodd Llywodraeth Cymru y Glasbrint Cyfiawnder i Fenywod ar y cyd â'r Weinyddiaeth Gyfiawnder yn 2019.¹⁶

22. Y Glasbrint Cyfiawnder i Fenywod yw ymgais Llywodraeth Cymru i gydnabod anghenion penodol menywod yn y system cyfiawnder troseddol. Mae'n nodi sut y bydd yn gweithio gyda phartneriaid datganoledig a rhai nad ydynt wedi'u datganoli i leihau nifer y menywod yn y system gyfiawnder troseddol drwy ymyrryd yn gynharach i'w cadw'n ddiogel ac i fynd i'r afael â'r gwendidau sydd yn aml yn arwain at droseddu.

23. Mae'r broses o gyflwyno'r Glasbrint yn cael ei goruchwyllo gan Fwrdd Cyfiawnder Troseddol Cymru Gyfan¹⁷, trwy raglenni arbenigol a grwpiau cynghori a gomisiynwyd gan Grŵp Menywod mewn Cyfiawnder yng Nghymru, a thrwy fyrddau cyfiawnder troseddol lleol.

24. Mae'r Glasbrint yn canolbwyntio ar bum maes allweddol:

¹⁴ Llywodraeth y DU, [Female Offenders Strategy, Mehefin 2018](#)

¹⁵ Llywodraeth y DU, [Female Offender Strategy Delivery Plan 2022 to 2025](#), Ionawr 2023

¹⁶ Llywodraeth Cymru, [Glasbrint ar gyfer Troseddwyd Benywaidd yng Nghymru, Mai 2019](#)

¹⁷ JOM Cymru, [Llywodraethu](#)

- ymyrryd yn gynnar ac atal;
- gweithio gyda llysoedd a dedfrydwyr;
- atebion yn y gymuned i gefnogi menywod;
- cynorthwyo menywod wrth ailsefydlu yn y gymuned; ac
- ymchwil a gwerthuso.

25. Cyhoeddwyd diweddariad Cynllun Gweithredu ar gyfer y Glasbrint ym mis Mai 2022.¹⁸

26. Cyhoeddodd Llywodraeth Cymru hefyd ei dull o ddiwygio'r system gyfiawnder, *Sicrhau Cyfiawnder i Gymru*, ym mis Mai 2022.¹⁹ Ynddo, mae Llywodraeth Cymru yn nodi ei hymrwymiad i fynd ar drywydd datganoli cyfiawnder a phlisma, a'r hyn y mae'n credu yw 'elfennau craidd' system gyfiawnder ddatganoledig. Mae hyn yn cynnwys canolbwyntio ar atal a lleihau maint poblogaeth y carchardai.

¹⁸ Llywodraeth Cymru a Swyddfa'r Gartref Llywodraeth y DU, Cynllun Gweithredu Troseddwr Benywaidd, Mai 2022

¹⁹ Llywodraeth Cymru, *Sicrhau Cyfiawnder i Gymru*, Mai 2022

2. Glasbrint Cyfiawnder i Fenywod yng Nghymru

Mae'r Glasbrint yn ganolog i agenda polisi Llywodraeth Cymru ar gyfer menywod yn y system cyfiawnder troseddol. Er ei fod wedi cael ei ganmol am ei fwriadau da, mae rhai wedi nodi pryderon ynghylch diffyg ymwybyddiaeth a chynnydd o ran ei weithredu.

27. Roedd tystion yn canmol y Glasbrint yn eang am ei ddull cydweithredol. Cyfeiriodd Cymru Ddiogelach yn benodol at gyfranogiad partneriaid allweddol a phobl â phrofiad o fyw, sy'n llywio'r gwaith a gyflawnir drwy'r Glasbrint yn barhaus.²⁰

28. Dywedodd Andrea Coomber CB:

"[...] it's not just an aspirational piece of text but is based in partnership working with a clear implementation plan, with timelines and deliverables; it is encouraging, to say the least"²¹

29. Tynnodd Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLILC) sylw at "nifer o feysydd gwaith cadarnhaol a diddorol ar waith fel rhan o'r Glasbrint", gan gynnwys y Dull System Gyfan y Rhaglen Fraenaru i Fenywod a gyflwynwyd yng Ngwent a De Cymru.²²

30. Er i ni glywed adborth cadarnhaol ar y cyfan am fwriadau a dull y Glasbrint, cododd rhai tystion bryderon ynghylch diffyg cynnydd ac unrhyw ddiweddariadau manwl ar ei weithredu.

31. Croesawodd Cymorth i Ferched Cymru addewidion a wnaed gan Lywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru ers cyhoeddi adroddiad Corston ond nododd mai ychydig o gynnydd sydd wedi'i wneud o ran ei gyflawni hyd yma.²³

32. Dywedodd Chwarae Teg fod diffyg data wedi'i ddadgyfuno yn ei gwneud hi'n anodd cael darlun llawn o brofiadau menywod o Gymru o'r system cyfiawnder troseddol. Roeddent yn feirniadol o'r diffyg manylder cyffredinol ar y ffrydiau gwaith a oedd wedi'u cynnwys yn y

²⁰ Cymru Ddiogelach, [tystiolaeth ysgrifenedig](#)

²¹ [Y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol, 24 Hydref, Cofnod y Trafodion, paragraff 9](#)

²² Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, [tystiolaeth ysgrifenedig](#)

²³ [Cymorth i Ferched Cymru, tystiolaeth ysgrifenedig](#)

diweddariad o'r cynllun gweithredu ym mis Mai 2022, a galwasant i'r gwaith ar adrodd ar weithrediad a llwyddiannau'r Glasbrint fod yn fwy rheolaidd a manwl.²⁴

33. Canmolodd Cymdeithas yr Ynadon y Glasbrint am ei grynodedb a'i eglurder, a'i fod yn cymryd agwedd person cyfan at fater troseddwy'r benywaidd, ond mewn arolwg ciplun o aelodau'r Gymdeithas yng Nghymru, dim ond tua 50 y cant o'r ynadon a ymatebodd a ddywedodd eu bod yn gwybod am y Glasbrint.²⁵

34. Dadleuodd Dr Robert Jones fod Cymru yn *dderbyniwr polisi* yn hytrach na lluniwr polisi. Dywedodd fod ymdrechion Llywodraeth Cymru i drawsnewid gwasanaethau i fenywod yn cael eu rhwystro gan y strwythurau cyfansoddiadol sy'n sail i system cyfiawnder troseddol Cymru:

*"Even in those areas of criminal justice policy where it [the Welsh Government] has a clear locus ... the ability of devolved government to act as an effective policy maker is constrained and, ultimately, undermined by the fact that the UK Government controls most of the key criminal justice policy levers."*²⁶

Ymyrryd yn gynnar ac atal

35. Awgrymodd Clinks fod y gwaith sy'n cael ei wneud ar ymyrraeth ac atal yn faes lle mae'r cynnydd ar y Glasbrint efallai wedi bod yn well nag ar draws y DU. Canmolodd y Dull System Gyfan yn arbennig ond ychwanegodd fod angen gwneud mwy i sicrhau y gellir cynnal y lefel honno o weithgarwch.²⁷

36. Tynnodd y Bwrdd Monitro Annibynnol yng Ngharchar EF/Sefydliad Troseddwy'r Ifanc Eastwood Park sylw at ddiffyg cymorth yn y gymuned.

*"Both prisoners and prison healthcare staff with whom the Board had spoken were of the view that there were insufficient mental health services in the community to meet the high levels of need, resulting in early warning opportunities being missed and acutely mentally unwell individuals being sent to prison. The Board found that this was a particular issue with the services in Wales, compared to those in other areas."*²⁸

²⁴ Chwarae Teg, [tystiolaeth ysgrifenedig](#)

²⁵ Y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol, 21 Tachwedd 2022, Cofnod y Trafodion, paragraffau 6+7

²⁶ Dr Robert Jones, [tystiolaeth ysgrifenedig](#)

²⁷ Y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol, 24 Hydref 2022, Cofnod y Trafodion, paragraff 11

²⁸ Bwrdd Monitro Annibynnol CEF Eastwood Park, [tystiolaeth ysgrifenedig](#)

37. Esboniodd Coleg Brenhinol yr Ymarferwyr Cyffredinol y gall diffyg gwasanaethau yn y gymuned arwain at garcharu a dileu systemau cymorth, gan greu cylch o droseddu a charcharu heb obaith am adsefydlu priodol.²⁹

38. Dywedodd cyfranwyr yn ein grwpiau ffocws wrthym nad oeddent wedi ceisio cael cymorth yn y gymuned cyn cael dedfryd o garchar. Dywedodd rhai menywod nad oeddent yn ymwybodol o ba gymorth oedd ar gael, a dywedodd eraill wrthym nad oeddent wedi cael cymorth oherwydd y risg y gallai hynny arwain at eu plant fynd i'r system ofal. Disgrifiodd un cyfrannwr oedd â phrofiad o Wasanaethau Iechyd Meddwl Plant a'r Glasoed (CAMHS) y cymorth a gafodd fel ymarfer ticio bocsys yn unig. Dywedodd pe bai rhywun wedi gwrando arni, y gallai fod wedi osgoi mynd i'r carchar.

39. Roedd tystion yn cydnabod yn eang y cymhlethdodau sy'n aml yn amgylchynu llwybr menyw i droseddu, gyda llawer yn amlygu bod menywod sy'n canfod eu hunain yn y system cyfiawnder troseddol wedi bod yn ddioddefwyr eu hunain. Mae bron i 60 y cant o fenywod sy'n troseddu wedi profi cam-drin domestig yn ôl yr Ymddiriedolaeth Diwygio Carchardai.³⁰ Mae gwaith ymchwil gan Ganolfan Hyb ACE Cymru yn dangos bod nifer yr achosion o drais yn erbyn menywod a cham-drin domestig ymhlith menywod sy'n troseddu yn sylweddol.³¹

40. Nododd CLILC y rôl bwysig y gall y system cyfiawnder troseddol ei chwarae wrth gefnogi menywod sy'n ddioddefwyr trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol, a chyfeiriodd at y Llys Cam-drin Domestig arbenigol yn Llys Ynadon Caerdydd fel enghraifft o arfer gorau.³²

41. Dywedodd Ymddiriedolaeth Nelson fod angen gwneud mwy i greu cyfleoedd trwy ymgysylltu â gwasanaethau 'cyswllt cyntaf' (er enghraifft, gwasanaethau iechyd, asiantaethau trais a cham-drin domestig, eiriolaeth a sefydliadau crefyddol).³³

42. Ym mis Tachwedd 2022, cyhoeddodd Hyb ACE Cymru ymchwil yn nodi bylchau mewn "gwybodaeth am fenywod sy'n troseddu yng Nghymru a'r sylfaen dystiolaeth i lywio'r gwaith o ddatblygu a thargedu mentrau atal sylfaenol ac ymyrraeth gynnar lwyddiannus i atal troseddu".³⁴

²⁹ Coleg Brenhinol yr Ymarferwyr Cyffredinol, [tystiolaeth ysgrifenedig](#)

³⁰ Ymddiriedolaeth Diwygio Carchardai, [Why focus on reducing women's imprisonment? Gorffennaf 2021](#)

³¹ ACE Hub Wales, [Nodi Llwybrau Menywod at Droseddu a'r Cyfleoedd Atal ac Ymyrraeth Gynnar Sylfaenol i Fenywod Mewn Perygl o Droseddu yng Nghymru](#), Tachwedd 2022

³² Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, [tystiolaeth ysgrifenedig](#)

³³ Ymddiriedolaeth Nelson, [tystiolaeth ysgrifenedig](#)

³⁴ ACE Hub Wales, [Nodi Llwybrau Menywod at Droseddu a'r Cyfleoedd Atal ac Ymyrraeth Gynnar Sylfaenol i Fenywod Mewn Perygl o Droseddu yng Nghymru](#), Tachwedd 2022

43. Cadarnhaodd Dirprwy Gomisiynydd Heddlu a Throseddu De Cymru, Emma Wools, fod partneriaid comisiynu ledled Cymru yn gwneud gwaith helaeth o ran buddsoddi mewn gwasanaethau dargyfeirio. Er bod ffocws cychwynol wedi bod ar ymyrraeth gynnar ar adeg arestio neu ar gyfer y rhai sydd wedi camu i'r system cyfiawnder troseddol fel troseddwr tro cyntaf, mae'r Comisiynydd Heddlu a Throseddu bellach yn edrych ar y prif bethau sy'n cyfrannu at gynyddu risg menywod o fynd i mewn i'r system:

"[...] from our perspective, that's going to be a forward priority for the Blueprint programme. So, how can we get in, educate and support our wider universal services—so, as we've talked about, mental health, accommodation, social services, et cetera—around those key indicators that present and put women at a vulnerable risk of entering the criminal justice system?"³⁵

Dull System Gyfan y Rhaglen Fraenaru i Fenywod

44. Mae elfennau allweddol y Glasbrint yn cynnwys y Dull System Gyfan y Rhaglen Fraenaru i Fenywod a Gwasanaeth Ymyrraeth Gynnar 18-25.³⁶ Roedd nifer o dystion gan gynnwys CLILC, Coleg Brenhinol y Seiciatryddion a'r Wallich yn croesawu'r mentrau hyn.³⁷

45. Mae'r Dull System Gyfan Braenu Merched yn cael ei ddarparu yn ardaloedd heddluoedd Gwent a De Cymru; mae'n darparu amrywiaeth o gymorth i fenywod sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn ac sy'n cael ei arwain gan anghenion gan gynnwys cymorth un i un, ymyriadau, cyfeirio ac atgyfeirio at asiantaethau arbenigol.³⁸ Nod y Gwasanaeth Ymyrraeth Gynnar 18-25 hefyd yw dargyfeirio oedolion ifanc oddi wrth y system cyfiawnder troseddol ac at ymyriadau a chymorth, yn seiliedig ar anghenion unigol a aseswyd.

46. Roedd gwerthusiad annibynnol gan Cordis Bright yn 2022 yn dangos, rhwng Ionawr 2020 a Mehefin 2021, bod 1,287 o fenywod wedi'u hatgyfeirio at y Dull System Gyfan y Rhaglen Fraenaru i Fenywod.³⁹ Roedd crynodeb o'r gwerthusiad yn awgrymu bod y rhaglen yn ymgysylltu'n llwyddiannus ag amrywiaeth o bobl ac yn rhoi profiadau cadarnhaol o gymorth

³⁵ Y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol, 14 Tachwedd 2022, Cofnod y Trafodion, paragraffau 219-220

³⁶ Ariennir y ddwy raglen gan Gomisiynydd Heddlu a Throseddu Gwent, Comisiynydd Heddlu a Throseddu De Cymru, Llywodraeth Cymru a Gwasanaeth Carchardai a Phrawf Ei Fawrhydi (HMPPS).

³⁷ Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, [tystiolaeth ysgrifenedig](#); Coleg Brenhinol y Seiciatryddion, [tystiolaeth ysgrifenedig](#); The Wallich, [tystiolaeth ysgrifenedig](#)

³⁸ Llywodraeth Cymru, [papur tystiolaeth](#)

³⁹ Cordis Bright, [The impact of the Women's Pathfinder Whole System Approach and 18-25 Early Intervention Service in Gwent and South Wales](#), Ebrill 2022

iddynt. Dateglodd y gwerthusiad hefyd fod mwyafrif helaeth y rhai a ddaeth drwy'r Gwasanaeth Ymyrraeth Gynnar 18-25 yn ddynion (97 y cant).

47. Dywedodd Cymru Ddiogelach:

*"...delivering a more comprehensive WSA model such as that in South Wales and Gwent, beyond South Wales and Gwent would benefit all women in Wales."*⁴⁰

48. Dywedodd y Dirprwy Gomisiynydd Heddlu a Throseddu, Emma Wools, fod swyddfa'r Comisiynydd Heddlu a Throseddu mewn trafodaethau i ehangu'r model dull system gyfan i ardaloedd Dyfed-Powys a Gogledd Cymru a'u bod yn edrych ar gyllid grant gan y Weinyddiaeth Gyfiawnder i gyflawni hyn.⁴¹

Canolfannau Menywod

49. Mae Canolfannau Menywod yn darparu siop un stop lle gall menywod gael cymorth ar amrywiaeth o faterion gan gynnwys tai, iechyd meddwl a chorfforol, a cham-drin domestig. Maent yn cynnig dull gweithredu amlasiantaethol, cymunedol sy'n benodol ar sail rhyw i gefnogi pob menyw, gan gynnwys y rhai sydd mewn cysylltiad â'r system cyfiawnder troseddol. Gallant chwarae rhan bwysig o ymyrraeth gynnar hyd at gymorth ar ôl rhyddhau. Roedd mwyafrif y tystion yn gefnogol o Ganolfannau Menywod cymunedol.

50. Dywedodd Clinks:

*"There is very strong evidence about women's centres, as mentioned in Baroness Corston's report—women's centres based in the local community, looking at the needs, providing holistic long-term voluntary and voluntarily entered into support."*⁴²

51. Tynnodd Ymddiriedolaeth Nelson sylw at eu Canolfan Menywod newydd yng Nghaerdydd, a gafodd ei chefnogi drwy gyllid cyfalaf gan Lywodraeth Cymru a chyfraniad gan y Weinyddiaeth Gyfiawnder. Derbyniodd y Ganolfan 418 o atgyfeiriadau i gefnogi menywod sy'n ymwneud â'r system cyfiawnder troseddol rhwng mis Ionawr a Mehefin 2022.⁴³ Cyfeiriodd tystion, gan gynnwys Clinks a HMPPS, at Ganolfan Merched Gogledd Cymru fel enghraifft o

⁴⁰ Cymru Ddiogelach, [tystiolaeth ysgrifenedig](#)

⁴¹ Y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol, 14 Tachwedd 2022, Cofnod y Trafodion, paragraff 157

⁴² Y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol, 24 Hydref 2022, Cofnod y Trafodion, paragraff 50

⁴³ Ymddiriedolaeth Nelson, [tystiolaeth ysgrifenedig](#)

arfer da.⁴⁴ Mae Canolfan Merched Gogledd Cymru yn gweithio gyda phartneriaid yn y sector cyhoeddus a'r trydydd sector i ddarparu gwasanaethau i tua 400 o fenywod bob blwyddyn, gyda 70-80 o fenywod yn mynd i'r Ganolfan bob dydd. Caiff ei hariannu drwy gymysgedd o grantiau, rhoddion a chontractau.⁴⁵

52. Yn ystod ein hymchwiliad, cyhoeddwyd bod Comisiynydd Heddlu a Throseddu Gogledd Cymru yn tynnu cyllid yn ôl o Ganolfan Merched Gogledd Cymru ar gyfer darparu'r prosiect Rhaglen Fraenaru i Fenywod. Codwyd hyn gyda Chomisiynydd Heddlu a Throseddu Gogledd Cymru. Cadarnhaodd o fis Ebrill 2023 y byddai rhaglen ddargyfeiriol a oruchwylir gan swyddfa'r Comisiynydd, Checkpoint Cymru, yn darparu'r gwasanaeth Rhaglen Fraenaru i Fenywod.⁴⁶

53. Mae adroddiad diweddar gan Women in Prison, *The value of Women's Centres*, yn nodi bod Canolfannau Menywod yn gwneud elw sydd bron deirgwaith y buddsoddiad cyhoeddus, trwy gadw menywod allan o'r carchar a lleddfu'r galw am wasanaethau eraill. Fodd bynnag, roedd hefyd yn dadlau:

*"due to persistent underfunding and increased demand for services over and since the pandemic, the network of specialist Women's Centres remains geographically patchy, and struggling to meet the levels of need."*⁴⁷

54. Cadarnhaodd HMPPS gynlluniau i gwmpasu a lansio canolfannau ychwanegol ledled Cymru:

*"That would be available for women who are participating in diversion schemes, women who are serving community sentences, women from the community who want to access services to support them, and women leaving prison. So, we are hoping to be able to build on the success of other women's centres—so, examples of women's centres that exist in Cardiff and in north Wales—to build on their success and from their lessons learnt, and to invest resources into developing those."*⁴⁸

⁴⁴ Y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol, 24 Hydref 2022, Cofnod y Trafodion, paragraff 61; Y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol, 14 Tachwedd 2022, Cofnod y Trafodion, paragraff 222

⁴⁵ Canolfan Merched Gogledd Cymru

⁴⁶ Llythyr at Gomisiynydd Heddlu a Throseddu Gogledd Cymru, 12 Ionawr 2023; Llythyr oddi wrth Gomisiynydd Heddlu a Throseddu Gogledd Cymru, 16 Ionawr 2023

⁴⁷ Women in Prison, *The value of Women's Centres*, Medi 2022

⁴⁸ Y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol, 14 Tachwedd 2022, Cofnod y Trafodion, paragraff 222

55. Galwodd Cymru Ddiogelach am drefniadau cydleoli pellach ar gyfer gwasanaethau menywod ar draws pob rhan o Gymru.⁴⁹

56. Dywedodd Clinks y gallai Cymru ddysgu o'r ffyrdd o weithio yn yr Alban, yn enwedig gan fod yr heriau demograffig yn debyg.⁵⁰ Clywsom fod Llywodraeth yr Alban yn ariannu'r Ganolfan Liliad, sy'n cynnwys pedwar tŷ gyda lle i chwech o fenywod ym mhob un. Bydd y menywod yn cael eu hannog i siopa, prynu bwydydd a choginio iddynt hwy eu hunain, a bydd yn adeiladu ar Ganolfan Bella a gafodd ei hagor yn yr haf ac mae'n gallu lletya wyth o fenywod.⁵¹

Safbwynt Llywodraeth Cymru

57. Mae papur y Gweinidog yn nodi bod cynnydd "sylweddol" wedi'i wneud "o ran dylunio a phrofi dulliau sy'n cefnogi gweledigaeth y Glasbrint o ddefnyddio dull system gyfan. Mae eisoes wedi dangos manteision dull gweithredu cydweithredol rhwng asiantaethau datganoledig a rhai nad ydynt wedi'u datganoli a Chyrff Anllywodraethol."⁵²

58. Dywedodd Llywodraeth Cymru fod y Glasbrint wedi datblygu set ddata integredig / storfa sengl o dystiolaeth mewn perthynas â menywod:

"Rydym wedi creu adroddiad partneriaeth chwarterol ar draws Cymru a luniwyd i wella dealltwriaeth a monitro tueddiadau mewn perthynas â menywod yn y System Cyfiawnder Troseddol. Mae hyn yn cael ei ategu wrth edrych yn fanwl ac yn rheolaidd ar ddata, lle mae angen deall materion/meysydd hollbwysig ymhellach."⁵³

59. Gwnaethom ofyn i'r Gweinidog a allai ddarparu data sy'n dangos effaith y Glasbrint. Dywedodd wrthym fod trafodaethau ar y gweill ynghylch hyn gyda phartneriaid y Glasbrint ac y byddai eglurhad pellach yn cael ei ddarparu maes o law.

60. Cydnabu Mark Drakeford, y Prif Weinidog, fod yna berthynas waith dda rhwng swyddogion Llywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru, ond tynnodd sylw at yr adnoddau y mae Llywodraeth Cymru wedi'u darparu yn y maes hwn:

"[...] many of the other advances we've seen in Wales—a drug and alcohol court, a family dispute court—there wouldn't be examples in Wales if the

⁴⁹ Cymru Ddiogelach, [tystiolaeth ysgrifenedig](#)

⁵⁰ Y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol, 24 Hydref 2022, [Cofnod y Trafodion, paragraff 149](#)

⁵¹ Llywodraeth yr Alban, [New custodial unit for women](#), Hydref 2022

⁵² Llywodraeth Cymru, [papur dystiolaeth](#)

⁵³ Llywodraeth Cymru, [papur dystiolaeth](#)

Welsh Government wasn't putting funding into making those things happen, whereas they're fully funded by the UK Government when they happen in England. So, that takes me back into that sort of moral hazard territory. We do it because it's the right thing, we do it because we know it will make a positive difference to families and to the system in Wales, but we are paying for things that, in other places, the UK Government pays for fully and properly, whereas here in Wales, the Welsh Government finds itself always being expected to not just play our part in terms of joint working and so on, but funding things that really are not for us to fund in order to make them happen."⁵⁴

61. Roedd papur y Gweinidog yn cadarnhau cefnogaeth Llywodraeth Cymru i ddatganoli cyfiawnder:

"[...] mae'r system gyfiawnder a'r gwasanaethau hanfodol bwysig hyn i fenywod yng Nghymru wedi'u rhannu dros ddwy lywodraeth ar wahân a dau fandad ar wahân. Er gwaethaf ein gwaith partneriaeth effeithiol ar hyn o bryd, dim ond datganoli cyfiawnder fydd yn caniatáu i ni fabwysiadu dull cwbl integredig o gefnogi menywod a merched yng Nghymru."⁵⁵

Dull System Gyfan y Rhaglen Fraenaru i Fenywod

62. Tynnodd y Gweinidog sylw at y Dull System Gyfan y Rhaglen Fraenaru i Fenywod (a'r Gwasanaeth Ymyrraeth Gynnar 18-25) fel enghreifftiau o sut mae'r Glasbrint yn cael ei roi ar waith yn Ne Cymru a Gwent. Cyfeiriodd at werthusiad Cordis Bright, a dywedodd fod y rhai a gyfeiriwyd at y dull system gyfan yn ymgysylltu'n dda ag ef, ac efallai na fyddent fel arall wedi ymgysylltu bryd hynny â'r system cyfiawnder troseddol. Nododd fod rhai o nodweddion allweddol ymgysylltu cadarnhaol, gan gynnwys bod y gefnogaeth yn cael ei hystyried yn rhywbeth annibynnol ar y system cyfiawnder troseddol, a bod dull wedi'i deilwra ar gyfer lleoliad, math o ymgysylltu, a pha mor ddwys a ffurfiol oedd yr ymgysylltu.⁵⁶

63. Nododd y Gweinidog bwysigrwydd cymorth cyfannol i fenywod:

"[...] at every level, it needs to be not just early intervention but how we support women to ensure that they don't have to certainly have a custodial sentence: use our day services, use our one-to-one services, but also work on

⁵⁴ Y Pwyllgor Craffu ar Waith y Prif Weinidog, 9 Rhagfyr 2022, Cofnod y Trafodion, paragraff 67.

⁵⁵ Llywodraeth Cymru, papur tystiolaeth

⁵⁶ Llywodraeth Cymru, papur tystiolaeth

*all of the issues that we are responsible for in the Welsh Government, which, of course, is Violence against Women, Domestic Abuse and Sexual Violence, mental health, substance misuse. It's very much a cross-Government response.*⁵⁷

64. Mae strategaeth Llywodraeth Cymru, Sicrhau Cyfiawnder i Gymru, yn nodi ei bwriad i weithio gyda phartneriaid ar y camau nesaf ar gyfer y rhaglen Braenaru i Fenywod a gwreiddio gweithgarwch atal a dargyfeirio ymhellach yng Nghymru.⁵⁸

Canolfannau Menywod

65. Mae'r Gweinidog yn cydnabod gwerth Canolfannau Menywod yn y gymuned, a nododd fod Llywodraeth Cymru wedi darparu cyllid untro i Ganolfan Merched Gogledd Cymru yn flaenorol,⁵⁹ a chyllid o'i rhaglen cyfleusterau cymunedol ar gyfer Canolfan Ymddiriedolaeth Nelson yng Nghaerdydd.⁶⁰ Cydnabu fod angen model ariannu mwy cynaliadwy, a chadarnhaodd ei swyddog:

*"Emma Wools, who has given evidence but is also the project manager for the Women's Justice Blueprint, has confirmed that they will be looking at funding and at the funding model as part of the Blueprint moving forward, as part of the roll-out of the diversionary system across Wales."*⁶¹

Ein barn ni

Glasbrint Cyfiawnder i Fenywod yng Nghymru

Rydym yn cymeradwyo bwriadau a dyheadau'r Glasbrint. Fodd bynnag, mae'n destun siom, dros 15 mlynedd ers cyhoeddi adroddiad Corston, fod llawer o waith i'w wneud o hyd i atal menywod rhag cael eu hanfon i'r carchar yn ddiangen am droseddau y gellid ymdrin â hwy yn fwy effeithiol yn y gymuned.

Er nad yw cyfiawnder troseddol wedi'i ddatganoli, mae Llywodraeth Cymru yn gyfrifol am wasanaethau sy'n croestorri â'r system cyfiawnder troseddol, gan gynnwys camddefnyddio sylweddau, iechyd corfforol ac iechyd meddwl, a llety. Mae llwyddiant y gwasanaethau hyn yn dibynnu i raddau helaeth ar gydweithio a gweithio mewn partneriaeth ar draws meysydd

⁵⁷ Y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol, 12 Rhagfyr 2022, Cofnod y Trafodion, paragraff 7

⁵⁸ Llywodraeth Cymru, Sicrhau Cyfiawnder i Gymru, Mai 2022

⁵⁹ Y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol, 12 Rhagfyr 2022, Cofnod y Trafodion, paragraffau 32-33

⁶⁰ Y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol, 12 Rhagfyr 2022, Cofnod y Trafodion, paragraff 28

⁶¹ Y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol, 12 Rhagfyr 2022, Cofnod y Trafodion, paragraff 34

datganoledig a'r rhai nad ydynt wedi'u datganoli. Mae'n amlwg bod ymwybyddiaeth o'r Glasbrint yn dal yn dameidiog a gall perchnogaeth fod yn anghyson. Mae angen i Lywodraeth Cymru weithio gyda'i phartneriaid er mwyn mynd i'r afael â hyn yn well. Mae arolwg ciplun Cymdeithas yr Ynadon, a oedd yn awgrymu mai dim ond tua 50 y cant o'r ynadon a gymerodd ran a oedd yn ymwybodol o'r Glasbrint, yn destun pryder penodol. Er ein bod yn gwerthfawrogi nad yw'r arolwg o reidrwydd yn gynrychioliadol o bob ynad, mae'n awgrymu bod angen gwneud llawer mwy o waith i wella ymwybyddiaeth a chefnogaeth. Mae'n dasg bwysig i Lywodraeth Cymru ei hunioni.

Er bod nifer y cynlluniau sy'n mynd rhagddynt a'r cynlluniau peilot yn arwydd o'r gwaith sy'n cael ei wneud yn y maes hwn, roeddem yn ei chael hi'n anodd llywio drwyddynt. Credwn fod angen sicrhau bod y wybodaeth hon ar gael yn hawdd i bawb sy'n ymwneud â'r system cyfiawnder troseddol. Dylai Llywodraeth Cymru gynnal ymarfer mapio i sicrhau bod gan bob sefydliad dan sylw ddealltwriaeth glir o'r hyn sy'n digwydd ar lawr gwlad.

Ymddengys bod y diweddariad gweithredu yn ddogfen gynhwysfawr a chryno; fodd bynnag, nid yw'n cynnwys y manylion angenrheidiol er mwyn gallu deall y cynnydd a wnaed yn llawn. Bydd gwell defnydd o ddata hefyd yn allweddol o ran symud y Glasbrint yn ei flaen, i asesu'r gwaith a wnaed hyd yma ac i lywio'r gwaith o lunio polisiau yn y dyfodol. Nodwn y bydd y Gweinidog yn rhoi eglurhad pellach ar ddata sy'n ymwneud â'r Glasbrint, a galwn ar Lywodraeth Cymru i gyhoeddi data sy'n dangos effaith y Glasbrint, ynghyd â diweddariadau ar weithredu'r Glasbrint.

O ran y system cyfiawnder troseddol yn ehangach, rydym yn cydnabod ac yn croesawu'r ffaith bod Llywodraeth Cymru yn dilyn dull sy'n canolbwyntio ar fenywod. Fodd bynnag, nodwn y sylwadau a wnaed gan y Prif Weinidog mewn perthynas ag adnoddau a'r "perygl moesol" o ddarparu cyllid gan Lywodraeth Cymru ar gyfer pethau nad ydynt wedi'u datganoli. Mae'r cwestiwn felly'n codi ynghylch a yw'r dull hwn yn gynaliadwy yn y tymor hir, mewn cyfnod o bwysau parhaus ar gyllidebau gwasanaethau cyhoeddus.

Yn ogystal, dylai Llywodraeth Cymru fapio cost y gwasanaethau y mae'n eu darparu i nodi'r rhai y mae'n gyfrifol amdanynt fel rhan o'r setliad datganoli presennol, a'r rhai sy'n dod o dan gyfrifoldeb y Weinyddiaeth Gyfiawnder ar hyn o bryd.

Er nad oedd yr ymchwiliad hwn yn rhoi ystyriaeth fanwl i ddatganoli pwerau dros y system cyfiawnder troseddol, nodwn fod y Prif Weinidog wedi nodi'n flaenorol y byddai'n ffafrio cael 'dull ymarferol' o ymdrin â'r mater. O ystyried y niwed posibl a glywsom o ganlyniad i'r setliad datganoli presennol, credwn y dylai Llywodraeth Cymru ymdrechu i gael cyfrifoldeb datganoledig am gyfranogiad menywod yn y system cyfiawnder troseddol fel rhan o'r dull hwn.

Argymhelliad 1. Dylai Llywodraeth Cymru fapio cost y gwasanaethau y mae'n eu darparu i nodi'r rhai y mae'n gyfrifol amdanynt fel rhan o'r setliad datganoli presennol, a'r rhai sy'n dod o dan gyfrifoldeb y Weinyddiaeth Gyfiawnder ar hyn o bryd. Dylai'r gwaith hwn gael ei wneud erbyn mis Mehefin 2023 a dylai Llywodraeth Cymru roi'r wybodaeth ddiweddaraf i ni am y cynnydd.

Argymhelliad 2. Dylai Llywodraeth Cymru ymdrechu i gael cyfrifoldeb datganoledig am gyfranogiad menywod yn y system cyfiawnder troseddol.

Argymhelliad 3. Er mwyn sicrhau bod y Glasbrint Cyfiawnder i Fenywod yn cael ei wreiddio, dylai Llywodraeth Cymru adeiladu ar ei heglurhad gweledol o waith y Glasbrint a darparu trosolwg manwl o'r holl gynlluniau sy'n mynd rhagddynt a'r cynlluniau peilot, gan nodi pwy sy'n gyfrifol am gyflawni, amserlenni, camau a gymerwyd ac adroddiadau, i sicrhau bod pob sefydliad sydd â diddordeb mewn cefnogi menywod yn y system cyfiawnder troseddol yn ymwybodol o'r hyn sy'n digwydd ar lawr gwlad. Dylid cwblhau'r gwaith hwn erbyn mis Mehefin 2023.

Argymhelliad 4. Dylai Llywodraeth Cymru gyhoeddi diweddariadau gweithredu yn flynyddol, sy'n cynnwys:

- disgrifiad manylach o gynnydd yn erbyn y nodau sydd wedi'u datgan yn y Glasbrint;
- statws ac amserlen y cynlluniau peilot sydd ar waith gan gynnwys y camau nesaf.

Ymyrryd yn gynnar ac atal

Drwy gydol yr ymchwiliad hwn, pwysleisiwyd ei bod yn bwysig ymgysylltu â menywod cyn gynted â phosibl er mwyn eu dargyfeirio oddi wrth droseddoldeb posibl a chael llwybr sy'n arwain at y system cyfiawnder troseddol. Mae'r rhan fwyaf o fenywod sy'n dod i mewn i'r system cyfiawnder troseddol yn ddioddefwyr eu hunain ac mae'n hanfodol bod y gwasanaethau sy'n dod ar draws y menywod hyn yn gynnar yn gallu adnabod yr arwyddion rhybudd a'u cefnogi neu eu hailgyfeirio menywod i wasanaethau priodol.

Dull System Gyfan y Rhaglen Fraenaru i Fenywod

Rydym yn cymeradwyo'r Dull System Gyfan y Rhaglen Fraenaru i Fenywod. Mae'n enghraifft bwerus o gydweithio, ac ymgysylltu â menywod i ystyried anghenion unigol a chynnig cymorth wedi'i deilwra. Mae'n galonogol clywed bod y camau nesaf ar gyfer cyflwyno'r rhaglen ledled Cymru yn cael sylw. Nodwn fod y Gwasanaeth Ymyrraeth Gynnar 18-25 wedi'i anelu at oedolion

ifanc ond, gyda dim ond 3 y cant o fenywod yn mynd drwy'r cynllun, rydym yn cwestiynu pam ei fod yn gogwyddo cymaint tuag at ddynion.

O ystyried rôl hanfodol ymyrraeth gynnar a strategaethau atal i sicrhau newid, dylai Llywodraeth Cymru nodi sut y mae'n bwriadu gweithio gyda phartneriaid i gynyddu'r Dull System Gyfan y Rhaglen Fraenaru i Fenywod fel ei fod yn cyrraedd pob rhan o Gymru.

Argymhelliad 5. Dylai Llywodraeth Cymru nodi sut y mae'n bwriadu gweithio gyda phartneriaid i gynyddu ei gweithgarwch o ran Dull System Gyfan y Rhaglen Fraenaru i Fenywod ar ymyrraeth gynnar ac atal fel ei fod yn cyrraedd pob rhan o Gymru.

Canolfannau Menywod

Mae'n amlwg bod Canolfannau Menywod yn y gymuned chwarae rhan bwysig ym mhob cam posibl o gysylltiad menyw â'r system cyfiawnder troseddol. Mae eu cysylltiadau â chymunedau lleol a gwasanaethau cymorth yn dangos y dull cydweithredol sydd ei angen i gynorthwyo menywod sydd mewn perygl o fod yn rhan o'r system cyfiawnder troseddol neu sydd eisoes yn rhan ohoni ar eu llwybr tuag at adsefydlu. Mae hefyd yn amlwg bod menywod yn fwy cyfforddus yn cael mynediad at wasanaethau sy'n cael eu hystyried eu bod ar wahân i'r sefydliadau sy'n uniongyrchol gysylltiedig â'r system cyfiawnder troseddol.

Fodd bynnag, mae'r cyllid ar gyfer y canolfannau hyn yn aml yn ansicr. Nodwn, er enghraifft, fod Comisiynydd Heddlu a Throseddau Gogledd Cymru yn bwriadu ailgyfeirio cyllid o Ganolfan Merched Gogledd Cymru i ddarparu'r Rhaglen Fraenaru i Fenywod a gweithredu yn fewnol yn lle hynny, sef Checkpoint Cymru. Mae hyn yn cyferbynnu â'r dystiolaeth a glywsom o blaid y rôl sy'n cael ei chwarae gan y Canolfannau Menywod. Felly rydym yn bwriadu monitro unrhyw effaith bosibl ar gynaliadwyedd Canolfan Merched Gogledd Cymru yn yr hirdymor.

Rhaid i'r gwaith o nodi ffynonellau mwy cynaliadwy o gyllid ar gyfer y Canolfannau Menywod sy'n bodoli eisoes fod yn flaenoriaeth i'r Weinyddiaeth Gyfiawnder, Llywodraeth Cymru a HMPPS. Rydym yn croesawu gwaith HMPPS i gwmpasu a lansio Canolfannau Menywod ychwanegol, a dylai Llywodraeth Cymru weithio'n agos gyda nhw a phartneriaid lleol i nodi lle byddai rhagor o Ganolfannau Menywod yn fuddiol a datblygu ffrydiau ariannu cynaliadwy er mwyn cynnwys eu datblygiad.

Argymhelliad 6. Dylai Llywodraeth Cymru weithio'n agos gyda Gwasanaeth Carchardai a Phrawf EF a phartneriaid lleol i nodi ble y dylid datblygu Canolfannau Menywod ymhellach. At hynny, dylai Llywodraeth Cymru nodi'r cynlluniau sydd ganddi hi a phartneriaid eraill i ddatblygu

ffrydiau ariannu cynaliadwy i gefnogi'r gwaith o greu'r Canolfannau hyn a'r gwaith a wneir ganddynt.

3. Lleihau dedfrydau o garchar

Mae ffigurau'n dangos bod tua 70 y cant o fenywod sy'n cael dedfrydau o garchar am lai na 12 mis yn aildroseddu o fewn blwyddyn.⁶² Dywed yr Ymddiriedolaeth Diwygio Carchardai fod 60 y cant o'r dedfrydau o garchar a roddwyd i fenywod yng Nghymru yn 2021 am lai na chwe mis, ac roedd 70 y cant am lai na 12 mis.⁶³ Mae cwestiynau ynghylch beth mae'r dedfrydau byrrach hyn yn ei gyflawni i fenywod a'n cymunedau.

66. Roedd cefnogaeth glir yn ein tystiolaeth dros leihau dedfrydau byr o garchar o blaid dedfrydau cymunedol a mesurau eraill.

67. Awgrymodd Clinks y dylid i ddechrau cael agwedd ataliol o fewn y system, fel bod yna ragdybiaeth tuag at ddargyfeirio.⁶⁴

68. Cytunodd Gwasanaeth Carchardai a Phrawf EF:

*"As a sector we should not wait for women to be embedded in the justice system to provide support and guidance. The earlier women at risk of entering the justice system can be identified and helped, the more families can stay together, and lives be improved."*⁶⁵

69. Roedd y Bwrdd Monitro Annibynnol yng CEF/Sefydliad Troseddwr Ifanc Eastwood Park yn amlygu data dedfrydu o 2019 a oedd yn dangos bod cyfradd carcharu o 62 am bob 100,000 yn ardal Heddlu De Cymru, o gymharu â 14 am bob 100,000 yn Nyfnaint a Chernyw, yr isaf yn nalgylch y carchar.⁶⁶

70. Cyfeiriodd HMPPS at waith sy'n cael ei wneud ar anghysondebau mewn dedfrydau o garchar, gan gynnwys pasbortau gwybodaeth i fenywod:

⁶² Y Weinyddiaeth Gyfiawnder, *Female Offender Strategy: Supporting data tables*, 2018.

⁶³ Ymddiriedolaeth Diwygio Carchardai, [tystiolaeth ysgrifenedig](#)

⁶⁴ Y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol, 24 Hydref 2022, *Cofnod y Trafodion*, paragraff 132.

⁶⁵ HMPPS, [tystiolaeth ysgrifenedig](#)

⁶⁶ Bwrdd Monitro Annibynnol CEF Eastwood Park, [tystiolaeth ysgrifenedig](#)

"We've targeted a couple of individual courts that seem to have higher than the national average rates to track the women through. So, we're able to provide information at point of arrest that then follows them through, so that we can be more proactive at accompanying them into court and providing court assessments to be able to be more likely to ask for pre-sentence reports, and provide assessments that recommend community sentences rather than them being sentenced without reports"⁶⁷

71. Pwysleisiodd Cymdeithas yr Ynadon pa mor bwysig yw cael dewisiadau eraill yn lle dedfrydau o garchar yn gyson. Dywedodd fod y gorchmynion triniaeth adsefydlu dedfryd gymunedol sydd ar gael yn anghyson iawn. Ychwanegodd fod opsiynau eraill heblaw am fynd i'r carchar hyd yn oed yn fwy cyfyngedig; gan nodi'r enghraifft o waith di-dâl lle byddai'r cyfan sydd ar gael yn golygu bod menywod yn mynd i sefyllfa lle mae dynion yn dominyddu, a'r heriau yn sgil hynny⁶⁸.

72. Dywedodd HMPPS eu bod yn ceisio torri'r arferiad o ddedfrydwyr yn gosod dedfrydau tymor byr o garchar. Tynnodd sylw at waith ymgysylltu a wnaed gyda dedfrydwyr, a oedd yn edrych ar ddedfrydau carchar i fenywod a darparu tystiolaeth am sut y gallant fod yn aneffeithiol, gan godi proffil dedfrydau cymunedol a dewisiadau eraill yn lle carcharu a sut y gallant fod yn fwy effeithiol.⁶⁹ Dywedodd fod llawer o ddedfrydau cymunedol wedi bod yn anodd i fenywod ymgysylltu â nhw, oherwydd nad yw eu hanghenion penodol wedi cael eu hystyried.⁷⁰

73. Roedd data a ddarparwyd gan HMPPS yn awgrymu bod gwelliannau wedi bod o ran lleihau nifer y menywod sy'n cael dedfrydau o garchar, ond roeddent yn cydnabod bod angen dadansoddiad tymor hwy:

"Internal management data from 2019-2021, has pointed towards an improving picture in terms of a reduction in the overall volume of female custodial sentences and short custodial sentences (of 12 months or under). Local data indicates that there were 552 custodial sentences of women in Wales in 2019. In 2021, the figure had dropped to 380. This data has also indicated a reduction in custodial sentences of women of 12 months and under, from 439 in 2019 to 278 in 2021. Longer-term analysis of the data, and

⁶⁷ Y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol, 14 Tachwedd 2022, Cofnod y Trafodion, paragraff 204.

⁶⁸ Y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol, 14 Tachwedd 2022, Cofnod y Trafodion, paragraff 24.

⁶⁹ Y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol, 14 Tachwedd 2022, Cofnod y Trafodion, paragraff 203.

⁷⁰ Y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol, 14 Tachwedd 2022, Cofnod y Trafodion, paragraff 211.

*a review of the most recent full year data for 2022, will be required to provide assurance of positive long-term trends in sentencing.*⁷¹

Y Ganolfan Breswyl i Fenywod arfaethedig

74. Yn 2018, gosododd Llywodraeth y DU gynlluniau i dreialu ‘canolfannau preswyl i fenywod’ mewn o leiaf bum safle ledled Cymru a Lloegr.⁷² Mae Canolfannau Preswyl i Fenywod yn rhan o ddull y llywodraeth o fynd i’r afael â gwraidd ymddygiad troseddol menywod ac yn cynnig dewis arall yn lle dedfrydau carchar.

75. Cyhoeddodd Llywodraeth y DU y byddai’r Ganolfan Breswyl gyntaf i Fenywod yn cael ei lleoli yng Nghymru a bod disgwyl iddi gael ei agor erbyn diwedd 2021. Bu’r Weinyddiaeth Gyfiawnder yn ystyried nifer o safleoedd ar draws de Cymru; roedd y safleoedd arfaethedig yn cynnwys Sunnyside House ym Mhen-y-bont ar Ogwr a Gwesty’r Atlantic ym Mhorthcawl ac fe dynnwyd y ddau gynllun yn ôl yn dilyn gwrthwynebiad gan Gyngor Pen-y-bont ar Ogwr.⁷³ Ym mis Mai 2022, cyhoeddodd Llywodraeth y DU – yn amodol ar ganiatâd cynllunio – y byddai’r ganolfan yn cael ei lleoli yn Abertawe.

76. Mae disgwyl i’r ganolfan 12 gwely agor yn 2024 gyda buddsoddiad o £10 miliwn gan Lywodraeth y DU dros dair blynedd. Bydd yn darparu ar gyfer 48 o fenywod y flwyddyn a fyddai fel arall wedi cael dedfryd o garchar o 12 mis neu lai. Bydd yn cael ei rhedeg gan HMPPS a fydd yn caffael ymyriadau penodol gan ddarparwyr gwasanaethau menywod. Bydd y menywod yn y ganolfan ar orchmynion cymunedol⁷⁴ a gafodd eu pasio gan ddedfrydwyr. Byddant yn arwyddo cytundeb wrth ymuno, a fydd yn cynnwys rheolau am ymddygiad ar y safle ac oddi ar y safle; bydd methu â chydymffurfio â’u cytundebau yn arwain at dynnu eu lle yn ôl a gorfod dychwelyd i’r llys. Bydd y menywod yn cael therapi iechyd meddwl un-i-un, cwnsela a chefnogaeth i oresgyn dibyniaeth a helpu i ddod o hyd i swydd a chynnal perthnasoedd teuluol.

77. Mewn datganiad yn cefnogi ei gais cynllunio, cyfeiriodd HMPPS at Safleoedd Cymeradwy Eden House ym Mryste a Chanolfan Breswyl Menywod Anawim yn Birmingham fel darpariaeth debyg, gan nodi bod Anawim yn derbyn atgyfeiriadau gan gynnwys menywod a ryddhawyd o’r ddalfa yn ogystal ag atgyfeiriadau cymunedol.⁷⁵

⁷¹ HMPPS, [tystiolaeth ychwanegol](#)

⁷² Llywodraeth y DU, [Female Offenders Strategy](#), Mehefin 2018

⁷³ Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr, [Sunnyside House ddim ar y rhestr o leoliadau posibl mwyach ar gyfer canolfan i droseddwyr](#), Mai 2021

⁷⁴ Cyngor Dedfrydu, [Community sentences](#)

⁷⁵ Dinas a Sir Abertawe, [Adroddiad Pwyllgor Terfynol](#), Medi 2022

78. Gwrthododd Cyngor Abertawe y cais cynllunio ym mis Tachwedd 2022, ond cadarnhaodd yr Arglwydd Bellamy, yr Is-ysgrifennydd Gwladol Seneddol dros Gyfiawnder, ar 5 Rhagfyr 2022 fod Llywodraeth y DU yn gweithio gyda Llywodraeth Cymru i apelio yn erbyn y penderfyniad.⁷⁶

79. Roedd yr Ymddiriedolaeth Diwygio Carchardai, Clinks, Coleg Brenhinol yr Ymarferwyr Cyffredinol Cymru a Chynghrair Howard er Diwygio Cosbau oll yn aneglur ynghylch diben y Ganolfan Breswyl i Fenywod. Roedd Cynghrair Howard er Diwygio Cosbau yn ofni y byddai'r ganolfan yn dod yn garchar i bob pwrpas heblaw am enw, a rhybuddiodd eu tystiolaeth ysgrifenedig fod y ganolfan mewn perygl o fod yn gyfle a fydd yn cael ei wastraffu.⁷⁷

80. Tynnodd Ymddiriedolaeth Nelson sylw at y rôl bwysig y mae sefydliadau'r trydydd sector yn ei chwarae wrth gynorthwyo menywod. Roeddent yn dadlau na ddylai cynlluniau preswyl amgen gael eu rhedeg gan HMPPS yn unig ac roeddent yn argymhell y dylid defnyddio arbenigedd.⁷⁸

81. Cwestiynodd Ymddiriedolaeth Diwygio Carchardai elfen breswyl y ganolfan:

"[...] given that the centre is only intended to serve the women in the local community, we're unclear as to what the residential requirement is designed to achieve because the residential requirement disrupts home and family life and caring responsibilities in similar ways to a short prison sentence."⁷⁹

82. Pan ofynnwyd a fyddai menywod yn y ganolfan yn cael eu carcharu, eglurodd HMPPS: "It's purely a residential facility, so it would be more akin to supported accommodation".⁸⁰ Eglurodd:

"[...] the target group that we are looking at to support with the Residential Women's Centre would be that low and medium risk of harm group of women who may have committed an offence that meets the threshold of a custodial sentence but don't actually require a custodial sentence to protect the public. [...] what we're trying to do through the Residential Women's Centre is to provide a safe environment for women who may otherwise be very vulnerable to give them an intensive support to engage with a community sentence."⁸¹

⁷⁶ Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 5 Rhagfyr 2022, Cofnod y Trafodion, paragraff 134

⁷⁷ Y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol, 24 Hydref 2022, Cofnod y Trafodion, paragraff 24

⁷⁸ Ymddiriedolaeth Nelson, *tystiolaeth ysgrifenedig*

⁷⁹ Y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol, 24 Hydref 2022, Cofnod y Trafodion, paragraff 29

⁸⁰ Y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol, 14 Tachwedd 2022, Cofnod y Trafodion, paragraff 181

⁸¹ Y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol, 14 Tachwedd 2022, Cofnod y Trafodion, paragraff 178

- 83.** Cwestiynodd Clinks a fyddai'r Ganolfan Breswyl i Fenywod yn golygu dargyfeirio adnoddau wedi'u blaenoriaethu ac arian o wasanaethau presennol.⁸² Dywedodd yr Ymddiriedolaeth Diwygio Carchardai na ddylai buddsoddi yn y ganolfan arwain at esgeuluso a gostyngiad yn y cyllid ar gyfer canolfannau menywod presennol, lle bydd angen cyllid hirdymor arnynt er mwyn sefydlu darpariaeth gymunedol i fenywod ar sail gynaliadwy.⁸³
- 84.** Tynnodd Ymddiriedolaeth Nelson sylw at y dybiaeth y bydd cymorth yn cael ei ddarparu drwy'r Hyb gan ddarparwyr cymunedol sydd â chontractau perthnasol, a dywedodd nad yw'n glir sut y bydd y darparwyr hyn yn cael eu cynnwys a pha gymorth ariannol fyddai ar gael ar gyfer y gwaith partneriaeth allweddol hwn.⁸⁴
- 85.** Holodd Ymddiriedolaeth Nelson a Chymorth i Ferched Cymru ynghylch lleoliad y Ganolfan Breswyl i Fenywod arfaethedig a chwestiynu pwy fyddai'n eu gwasanaethu. Rhybuddion nhw y gallai darparu gwasanaethau i fenywod lleol yn unig beri problemau. Esboniodd Ymddiriedolaeth Nelson fod llawer o fenywod yn gynhenid gysylltiedig drwy berthnasoedd a rhwydweithiau cymdeithasol nad ydynt bob amser yn iach ac y gallai hyn wrthweithio'r amgylchedd therapiwtig.⁸⁵ Gwnaethant dynnu sylw at y risgiau sy'n gysylltiedig â chael canolfan fenywod sy'n wynebu'r cyhoedd wedi'i lleoli ar yr un safle â'r Ganolfan Breswyl ar gyfer menywod sy'n breswylwyr sy'n goroesi cam-drin domestig gan y byddai cyfeiriad y Ganolfan yn gyhoeddus.
- 86.** Awgrymodd Ymddiriedolaeth Nelson mai dewis arall posibl yn lle'r Ganolfan Breswyl yw model llety modiwlwr sy'n canolbwyntio ar fenywod gyda staff 24 awr ar y safle a mynediad uniongyrchol i'r Ganolfan Menywod Gymunedol leol lle gallai menywod weithio ar eu gofynion dedfryd gymunedol o fewn eu cymunedau.⁸⁶
- 87.** Gwnaeth HMPPS, Comisiynydd Heddlu a Throseddu De Cymru, Iechyd Cyhoeddus Cymru ddadleuon o blaid y Ganolfan Breswyl i Fenywod. Dywedodd Comisiynydd Heddlu a Throseddu De Cymru y bydd Canolfan Breswyl i Fenywod yn darparu llety i fenywod yn agos at eu cartrefi, mewn amgylchedd diogel, cartrefol gyda chymorth adsefydlu dwys. Bydd menywod yn y gymuned leol yn gallu elwa ar wasanaethau a ddarperir ar sail ddibreswyl.⁸⁷
- 88.** Dywedodd Gwasanaeth Carchardai a Phrawf Ei Mawrhydi y bydd menywod yn cael cynnig therapi iechyd meddwl un-i-un a chwmsela i fynd i'r afael â thrawma a dibyniaethau, a chymorth

⁸² Y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol, 24 Hydref 2022, Cofnod y Trafodion, paragraff 37

⁸³ Ymddiriedolaeth Diwygio Carchardai, [tystiolaeth ysgrifenedig](#)

⁸⁴ [Ymddiriedolaeth Nelson, tystiolaeth ysgrifenedig](#)

⁸⁵ [Ymddiriedolaeth Nelson, tystiolaeth ysgrifenedig](#)

⁸⁶ [Ymddiriedolaeth Nelson, tystiolaeth ysgrifenedig](#)

⁸⁷ Dirprwy Gomisynydd Heddlu a Throseddu De Cymru Emma Wools, [tystiolaeth ysgrifenedig](#)

i gael cyflogaeth a chynnal perthnasoedd teuluol. Cadarnhawyd y byddai'r Ganolfan Breswyl i Fenywod yn gwasanaethu menywod o ardal darparu leol Abertawe Castell-nedd Port Talbot.⁸⁸ Wrth drafod yr oedi, roeddent yn dadlau bod cefnogaeth barhaus Llywodraeth Cymru a phartneriaid eraill yn 'hanfodol' o ran sefydlu'r Ganolfan Breswyl i Fenywod.⁸⁹

89. Dywedodd HMPPS y byddai'r cynnig i fenywod aros am 12 wythnos yn cael ei gefnogi gan ymchwil sy'n dangos mai dyna'r amser gorau i gefnogi rhywun yn ddwys cyn gadael iddynt gael mynediad i wasanaethau yn annibynnol, ar ôl y 12 wythnos byddant yn dal i allu cael cymorth gan y ganolfan a'r gwasanaeth prawf.⁹⁰

90. Gwnaethom ofyn i'r HMPPS am ragor o wybodaeth am yr ymchwil a ddefnyddiwyd i gefnogi'r cynnig i aros am 12 wythnos. Dywedasant wrthym fod y Weinyddiaeth Gyfiawnder wedi edrych ar arfer da tebyg sy'n bodoli eisoes wrth bennu hyd yr amser y dylai menywod breswyl yn y Ganolfan Breswyl i Fenywod. Gwnaethant amlygu eu disgwyliad y byddai menywod sy'n mynychu'r Ganolfan Breswyl i Fenywod fel arall wedi cael dedfryd o garchar am hyd at flwyddyn. Nodwyd bod y ddarpariaeth bresennol ar adeg eu hymchwil gychwynnol yn cynnwys:

- Model Changing Lives yn Northumbria lle caiff unigolion eu rhoi mewn canolfan asesu am hyd at 12 wythnos i ddechrau;
- Fferm Willowdene yn West Mersia lle mae pobl yn preswyl ar y fferm am rhwng 7 a 12 wythnos;
- Triniaeth caethiwed preswyl therapiwtig Ymddiriedolaeth Nelson i fenywod, sy'n para tua 12 wythnos.⁹¹

91. Soniodd Iechyd Cyhoeddus Cymru am eu dyheadau ar gyfer y Ganolfan Breswyl i Fenywod:

"[...] rydym yn gobeithio y bydd cyhoeddi'r Fframwaith Arfer Trawma Cenedlaethol yn cefnogi datblygiad Canolfan Adsefydlu Menywod yn Abertawe fel gwybodaeth am drawma o'r dechrau, gan gynnwys hyfforddiant, arbenigedd a chymorth perthnasol i'r menywod yn dibynnu ar eu hanghenion a gan ystyried egwyddorion y fframwaith."⁹²

⁸⁸ Y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol, 14 Tachwedd 2022, Cofnod y Trafodion, paragraff 189

⁸⁹ Gwasanaeth Carchardai a Phrawf EF Cymru, [tystiolaeth ysgrifenedig](#)

⁹⁰ Y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol, 14 Tachwedd 2022, Cofnod y Trafodion, paragraff 187

⁹¹ [HMPPS, gwybodaeth ychwanegol](#)

⁹² Iechyd Cyhoeddus Cymru, [tystiolaeth ysgrifenedig](#)

92. Dywedodd y Wallich ei fod yn gobeithio y bydd y Ganolfan Breswyl i Fenywod yn rhoi gwaith partneriaeth ar flaen y gad ac yn darparu tystiolaeth ddefnyddiol i ailadrodd y gwasanaeth hwn y mae mawr ei angen mewn rhannau eraill o Gymru fel mater o frys.⁹³

93. Nododd Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru bwysigrwydd ystyried pryderon cymunedau lleol wrth benderfynu ar leoliad unrhyw ganolfan, ac ychwanegodd y dylai awdurdodau lleol gael eu cynnwys yn llawn, y dylid ymgynghori â nhw a'u cynnwys yn y gwaith o ddatblygu a gweithredu cynlluniau o'r fath.⁹⁴

94. Argymhellodd Iechyd Cyhoeddus Cymru y dylid dysgu o arfer presennol, a thynnodd sylw at Trevi House, sef canolfan adsefydlu breswyl yn Plymouth:

"We can learn from examples such as Trevi House in Plymouth, where this has been done very successfully and these facilities are just part of the community itself, so that we don't 'other' people, label people or accidentally, without intention, create something that wasn't there before and just keep going with the generation of a lack of understanding of the experience of these women and what supports them most."⁹⁵

95. Yn ei adroddiad yn 2022, argymhellodd y Pwyllgor Cyfiawnder y dylai'r Weinyddiaeth Gyfiawnder nodi'n fanylach sut y bydd Canolfannau Preswyl i Fenywod yn gweithredu'n ymarferol, gan gynnwys sut y byddant yn wahanol i'r ddalfa. Galwodd hefyd ar y Weinyddiaeth Gyfiawnder i nodi sut y mae'n bwriadu gwerthuso ac adrodd ar effeithiolrwydd y cynllun peilot.⁹⁶ Derbyniodd y Weinyddiaeth Gyfiawnder yr argymhelliad, a nododd fod y model gweithredu ar gyfer y ganolfan yn cael ei ddatblygu. Cadarnhaodd:

"Once that work is complete, we will develop operational instructions and guidance for staff, providers, courts, and the judiciary as appropriate. We are about to run a feasibility study to assess best options for evaluating the RWC in Wales."⁹⁷

⁹³ The Wallich, [tystiolaeth ysgrifenedig](#)

⁹⁴ Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, [tystiolaeth ysgrifenedig](#)

⁹⁵ Y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol, 14 Tachwedd 2022, Cofnod y Trafodion, paragraff 23

⁹⁶ Pwyllgor Cyfiawnder Senedd y DU, [Women in Prison inquiry, Gorffennaf 2022](#)

⁹⁷ Pwyllgor Cyfiawnder Tŷr Cyffredin, [Women in Prison: Government Response to the Committee's First Report](#), Hydref 2022

Datrysiadau y Tu Allan i'r Llys

96. Mae Datrysiadau y Tu Allan i'r Llys (OOCDs) yn ffordd o gwblhau ymchwiliadau troseddol heb fynd ymlaen i erlyniad llys ffurfiol. Fe'u gweinyddir i droseddwy'r er mwyn galluogi'r heddlu i ymdrin yn gymesur â throseddau lefel isel yn bennaf (ond nid yn gyfan gwbl), sy'n aml yn troseddu am y tro cyntaf.

97. Mae Strategaeth Troseddwy'r Benywaidd y DU yn gwneud ymrwymiad i wella'r defnydd o OOCs. Mae'r Strategaeth yn dweud o dan y system bresennol bod gormod o warediadau yn rhybuddion i beidio ag aildroseddu ac nad yw'n mynd i'r afael ag achosion sylfaenol yr ymddygiad troseddol drwy osod amodau. Fodd bynnag, dywedodd adroddiad y Pwyllgor Cyfiawnder yn 2022 nad oes tystiolaeth glir i awgrymu bod mwy o fenywod wedi cael eu dargyfeirio i ffordd o'r ddalfa drwy well defnydd o OOCs ers cyhoeddi'r strategaeth.⁹⁸

98. Dywedodd Emma Wools, Dirprwy Gomisiynydd yr Heddlu a Throseddu De Cymru, wrth y Pwyllgor eu bod yn cael eu defnyddio ar draws y pedwar llu heddlu a bod dros 2,000 o fenywod wedi cael eu cyfeirio at y gwasanaethau hynny dros y ddwy flynedd ddiwethaf.⁹⁹

99. Dywedodd Cymdeithas yr Ynadon:

"[...] it is very important that there is consistency in the way that they are used, as far as the offences that they are used for, and also the nature of the out-of-court disposals as well."¹⁰⁰

100. Roedd Cymdeithas yr Ynadon am i OOCs gael eu monitro'n gyson a chraffu arnynt i wneud yn siŵr eu bod yn gweithio'n dda gyda rhannau eraill o'r system gyfiawnder.

101. Cadarnhaodd ymateb Llywodraeth y DU i adroddiad y Pwyllgor Cyfiawnder 'Women in Prison' ym mis Hydref 2022 fod defnydd ac effeithiolrwydd OOCs yn cael eu hadolygu.¹⁰¹

⁹⁸ Pwyllgor Cyfiawnder Senedd y DU, Women in Prison inquiry, Gorffennaf 2022.

⁹⁹ Y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol, 21 Tachwedd 2022, Cofnod y Trafodion, paragraff 200.

¹⁰⁰ Y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol, 21 Tachwedd 2022, Cofnod y Trafodion, paragraff 12.

¹⁰¹ Pwyllgor Cyfiawnder Tŷ'r Cyffredin, Women in Prison: Government Response to the Committee's First Report, Hydref 2022.

Adroddiadau Cyn Dedfrydu

102. Nod Adroddiadau Cyn Dedfrydu (PSRs) yw rhoi dealltwriaeth gliriach i'r llysoedd o gefndir a chyd-destun ymddygiad unigolyn. Yng Nghymru, yn 2019 roedd cyfanswm yr adroddiadau cyn dedfrydu a baratowyd wedi gostwng 25 y cant ers 2014.¹⁰²

103. Clywsom fod anogaeth i 'adrodd ar y dydd' ac am 'gyfiawnder cyflym' yn aml yn arwain at gwblhau PSRs ar ddiwrnod y ddedfryd. Mae'r amserlen hon yn cyfyngu ar lefel y manylion y gellir eu darparu.¹⁰³

104. Cyfeiriodd Cymdeithas yr Ynadon at yr arolwg ciplun o aelodau'r Gymdeithas, a ddangosodd fod PSRs wedi gwella yn ddiweddar. Fodd bynnag, nododd fod y farn ar PSRs yn ymwneud yn benodol â throseddwy'r benywaidd yn llai cadarnhaol:

"[...] about a third rated them as 'good' or 'very good' and two thirds 'okay' or 'poor'. It's clear that there's still an issue there about provision. There were comments about 'little provision', 'not aware of anything in my local area', which were very frequent as far as the detail of the feedback. And around about three quarters were unaware of any local women's centre in their local area as well."¹⁰⁴

105. O ran penderfyniadau dedfrydu, roedd Cymdeithas yr Ynadon yn dadlau bod PSRs yn chwarae rhan allweddol:

"[...] the key is through the pre-sentence report, both in terms of what it contains, understanding the needs and the particular circumstances of the offender, and of the options that are available."¹⁰⁵

Safbwynt Llywodraeth Cymru

106. Roedd lleihau nifer y menywod sy'n mynd i'r carchar yn un o nodau allweddol y Glasbrint Cyfiawnder i Fenywod. Dywed Llywodraeth Cymru:

"Mae prosiect Glasbrint i Fenywod yn ceisio lleihau nifer y menywod sy'n cael eu dedfrydu i garchar am dymor byr drwy ganolbwyntio ar ddull system gyfan. Mae hyn wedi cynnwys cryfhau cyfleoedd ymyrraeth gynnar a

¹⁰² Canolfan Llywodraethiant Cymru, [Prison, Probation and Sentencing in Wales: 2019 Factfile](#), Medi 2020

¹⁰³ [Nodyn cyfarfod gyda HMPPS. Ionawr 2023](#)

¹⁰⁴ Y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol, 21 Tachwedd 2022, Cofnod y Trafodion, paragraff 9

¹⁰⁵ Y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol, 21 Tachwedd 2022, Cofnod y Trafodion, paragraff 23

*dargyfeirio fel nad yw materion yn mynd yn fwy cymhleth a rhag cael mynediad ffurfiol i'r System Cyfiawnder Troseddol, a hefyd i gryfhau'r ddarpariaeth ehangach yn y gymuned i fenywod er mwyn sicrhau bod atebion cadarn ar waith yn y gymuned i fynd i'r afael ag anghenion sy'n ymwneud â throseddu ymysg menywod.*¹⁰⁶

107. Dywedodd y Gweinidog wrthym:

*"[...] it is part of the work stream of the Women's Blueprint, and it's a devolved and non-devolved blueprint, to ensure that sentencers do fully understand the impact of unnecessary custodial sentences for those short-term sentences."*¹⁰⁷

Y Ganolfan Breswyl i Fenywod arfaethedig

108. Wrth siarad am y Ganolfan Breswyl i Fenywod arfaethedig, dywedodd y Gweinidog wrthym y byddai'n "ategu nodau'r Glasbrint i gryfhau darpariaeth yn y gymuned i fenywod", a bod tystiolaeth a gasglwyd drwy waith Adroddiad Partneriaeth Menywod Cymru wedi helpu i lywio'r penderfyniad i dreialu'r Ganolfan Breswyl newydd yn Abertawe.¹⁰⁸ Dywedodd:

*"[...] we've worked hard to get this women's residential centre in Wales, and it is the pilot. If you look back to when this was agreed [...] it was regarded as a ground breaking residential women's centre. [...] We are being piloted for England and Wales as an alternative to women's prison, so it is vital that we get this right [...]"*¹⁰⁹

Adroddiadau Cyn Dedfrydu

109. Tynnodd y Gweinidog sylw at ffocws cynllun peilot Adroddiad Cyn Dedfrydu HMPPS, sef y dylai pob menyw gael ei hystyried ar gyfer Adroddiad Cyn Dedfrydu, er mwyn sicrhau bod dull unigol, wedi'i lywio gan drawma, yn cael ei ddefnyddio o'r cychwyn cyntaf. Y nod yw annog ystyried a gorfodi dewisiadau eraill yn lle carcharu.¹¹⁰

¹⁰⁶ Llywodraeth Cymru, [papur tystiolaeth](#)

¹⁰⁷ [Y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol, 12 Rhagfyr 2022, Cofnod y Trafodion, paragraff 68](#)

¹⁰⁸ Llywodraeth Cymru, [papur tystiolaeth](#)

¹⁰⁹ [Y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol, 12 Rhagfyr 2022, Cofnod y Trafodion, paragraff 57](#)

¹¹⁰ Llywodraeth Cymru, [papur tystiolaeth](#)

Ein barn ni

Rydym yn cydnabod bod rhai menywod yn y carchar oherwydd difrifoldeb eu troseddau. Fodd bynnag, mae effaith andwyol dedfrydau byr o garchar yn glir. Cawsom ein synnu o glywed tystiolaeth anecdotaidd fod rhai wedi bod yn y carchar am lai nag wythnos, gan gynnwys dros y Nadolig. Yr arhosiad cyfartalog ar gyfer menyw yng CEF Eastwood Park yw 42 diwrnod. Mae hyn yn ddigon o amser i fenyw golli ei chartref, ei swydd, a'i theulu; ond ddim yn ddigon o amser ar gyfer unrhyw ymyriad ystyrllon sy'n anelu at adsefydlu neu fynd i'r afael â materion sylfaenol.

Er bod y mwyafrif llethol o'r dystiolaeth a gawsom o blaid lleihau dedfrydau carchar, yn enwedig dedfrydau byr, roedd hefyd yn amlwg bod y dewisiadau eraill sydd ar gael ledled Cymru yn gyfyngedig. Mae hyn yn amharu ar allu dedfrydwyr sy'n credu'n rhy aml nad oes ganddynt lawer o ddewis ond carcharu menywod a allai ymateb yn well i ddewisiadau eraill yn y gymuned neu gosb heblaw am fynd i'r carchar.

Mae'r gwaith ymgysylltu sy'n cael ei wneud gan HMPPS gyda dedfrydwyr yn hanfodol o ran gwella'r ddealltwriaeth o ddewisiadau eraill yn lle'r ddalfa, ond ni fydd yn dwyn unrhyw ffrwyth os na fydd dewisiadau eraill ar gael yn gyson. Dylai mai'r dewis olaf yw dedfrydau o garchar; ni ddylai menywod nad ydynt yn fygythiad i gymdeithas fod yn mynd i'r carchar am fân droseddau. Dylai Llywodraeth Cymru weithio gyda'r Weinyddiaeth Gyfiawnder a HMPPS i nodi bylchau ac i sicrhau bod digon o opsiynau yn y gymuned ar gael yn benodol i fenywod ledled Cymru.

Argymhelliad 7. Dylai Llywodraeth Cymru weithio gyda'r Weinyddiaeth Gyfiawnder a Gwasanaeth Carchardai a Phrawf EF i nodi bylchau ac i sicrhau bod digon o opsiynau eraill yn y gymuned heblaw am garchar ar gael yn benodol i fenywod ledled Cymru.

Y Ganolfan Breswyl i Fenywod arfaethedig

Rydym yn cydnabod bod y Ganolfan Breswyl i Fenywod arfaethedig yn cynnig dewis arall i ddedfrydwyr yn lle anfon menyw i garchar. Clywsom safbwyntiau gwahanol am y ganolfan, ac roeddem yn ddiolchgar am yr eglurder ychwanegol a gynigiwyd gan HMPPS a'r Dirprwy Gomisynydd Heddlu a Throseddu ynghylch sut y bydd yn gweithredu a chyrhaeddiad daearyddol y ganolfan (Abertawe a Chastell-nedd Port Talbot). Fodd bynnag, clywsom bryderon am yr elfen breswyl; y trefniadau ariannu a rheoli; y diffiniad o'r dalgylch; a chwestiynau am ymdrech i gynnwys y gymuned leol. Bydd ymgysylltu ag awdurdodau lleol, rhanddeiliaid a chymunedau lleol yn allweddol i'w lwyddiant.

Heb gael mwy o eglurder gan y llywodraeth ynghylch pwrpas y cynllun peilot a'r gwasanaethau a gynigir gan y Ganolfan Breswyl i fenywod, mae risgiau y bydd pryderon rhanddeiliaid yn cael eu gwireddu. Er mwyn sicrhau llwyddiant y cynllun peilot, pe bai'n mynd yn ei flaen, mae'n hollbwysig bod dedfrydwyr yn gwybod yn glir ei fod yn bodoli fel dewis arall yn lle dedfryd o garchar; na ddylai efelychu'r niwed o anfon dynes i garchar ymhell o gartref; a bod menywod yn gallu cael cymorth arbenigol yn ystod eu harhosiad yn y ganolfan a thros y tymor hwy. Rydym yn nodi bod Llywodraeth y DU wedi cadarnhau y bydd yn datblygu cyfarwyddiadau a chanllawiau gweithredol ar gyfer llysoedd a'r farnwriaeth a dylai Llywodraeth Cymru weithio gyda'r Weinyddiaeth Gyfiawnder i sicrhau bod Cymru'n cael ei chynrychioli yn y gwaith hwn.

O ran trefniadau ariannu, dylai Llywodraeth Cymru nodi pa gyfraniad ariannol y disgwylir iddi ei wneud i gefnogi menywod yn y ganolfan pe bai'n mynd yn ei blaen, a beth allai'r goblygiadau ariannu fod i Ddinas a Sir Abertawe a'r Bwrdd Iechyd Lleol.

Rydym hefyd yn awyddus sicrhau na ddylid datblygu'r Ganolfan Breswyl ar draul y Canolfannau Menywod yn y gymuned sydd wedi'u cynllunio neu sydd eisoes yn bodoli yng Nghymru.

Argymhelliad 8. Rhaid i Lywodraeth Cymru weithio gydag adrannau cyfatebol yn y Weinyddiaeth Gyfiawnder a Gwasanaeth Carchardai a Phrawf EF i fynegi'n gliriach y diben a'r gwasanaethau y bydd y Ganolfan Breswyl i Fenywod yn eu cynnig.

Argymhelliad 9. Tudalen Dylai Llywodraeth Cymru weithio gyda'r Weinyddiaeth Gyfiawnder i sicrhau bod Cymru'n cael ei chynrychioli wrth ddatblygu'r cyfarwyddiadau a'r canllawiau gweithredol sy'n ymwneud â Chanolfannau Preswyl i Fenywod.

Argymhelliad 10. Dylai Llywodraeth Cymru nodi pa gyfraniad ariannol y disgwylir iddi ei wneud i gefnogi menywod yn y ganolfan beilot, pe bai'n mynd yn ei blaen, a beth allai'r goblygiadau ariannu fod i Ddinas a Sir Abertawe a'r Bwrdd Iechyd Lleol.

Adroddiadau Cyn Dedfrydu

Gall adroddiadau cyn dedfrydu fod yn allweddol i helpu dedfrydwyr i ddeall sefyllfa menyw (gan gynnwys yr effaith ar unrhyw blant ac unrhyw amgylchiadau esgusodol eraill a allai fod yn berthnasol) a darparu ystod o opsiynau ar gyfer dedfrydu. Mae pwysau ar y system cyfiawnder troseddol, gan gynnwys ôl-groniadau yn y llysoedd a'r angen am 'gyfiawnder cyflym' yn arwain at gymhwyso adroddiadau cyn dedfrydu'n anghyson ac roedd yn destun pryder i ni glywed bod eu defnydd wedi gostwng 25 y cant yng Nghymru ers 2014. Dylai Llywodraeth Cymru weithio gyda HMPSS i fonitro'r defnydd o PSRs yn agos.

Argymhelliad 11. Dylai Llywodraeth Cymru weithio gyda Gwasanaeth Carchardai a Phrawf EF i fonitro'r defnydd o Adroddiadau Cyn Dedfrydu a nodi anghysondebau, gan gynnwys yr effaith ar les plant. Dylai Llywodraeth Cymru, ar y cyd â Gwasanaeth Carchardai a Phrawf EF, nodi sut y mae'n bwriadu sicrhau defnydd mwy cyson a gwell o Adroddiadau Cyn Dedfrydu ledled Cymru.

4. Darpariaeth a chymorth yn y ddalffa

“Mae’r system garchardai yn ei chyfanrwydd wedi’i dylunio o amgylch anghenion y mwyafrif o ddynion. Nid yw rheolau carchardai a pholisi carchardai yn cefnogi nac yn blaenoriaethu iechyd a lles menywod.”¹¹¹

110. Dywed Ymddiriedolaeth Nelson:

“The way prison health and social care in Wales is funded, commissioned, and delivered is a complex and confusing picture resulting in a very mixed bag of services across Wales.”¹¹²

111. Dywedodd Cymorth i Ferched Cymru wrthym nad yw profiadau menywod yn cael eu hystyried mewn modd sy’n cael ei arwain gan anghenion, sy’n cael ei lywio gan drawma ac mae’r cymorth a gynigir yn aml wedi’i ddarparu mewn seilo.¹¹³ Cafodd yr angen i ddarparu cymorth cyfannol ei ailadrodd gan Goleg Brenhinol Seiciatryddion Cymru, Chwarae Teg a The Wallich.¹¹⁴

112. Galwodd Cymorth i Fenywod Cymru am ddatblygu strategaethau clir sydd nid yn unig yn mynd i’r afael ag ymddygiad troseddol ac yn darparu cymorth i fenywod sydd mewn cysylltiad â’r system cyfiawnder troseddol, ond sydd hefyd yn nodi ac yn cefnogi’r rhai sy’n cael eu hecsbloetio gan gangiau troseddol neu’n cael eu gorfodi i ymddygiad troseddol gan gyflawnwyr pob math o drais.¹¹⁵

113. Cadarnhaodd HMPPS a Dirprwy Gomisiynydd yr Heddlu a Throseddu fod Cyngorydd Annibynnol ar Drais Domestig ar waith yn CEF Eastwood Park a oedd hefyd yn cefnogi’r rhai yn CEF Styal.¹¹⁶

¹¹¹ [Cynghrair Howard er Diwygio Cosbau, tystiolaeth ysgrifenedig](#)

¹¹² [Ymddiriedolaeth Nelson, tystiolaeth ysgrifenedig](#)

¹¹³ [Cymorth i Ferched Cymru, tystiolaeth ysgrifenedig](#)

¹¹⁴ [Coleg Brenhinol Seiciatryddion Cymru, tystiolaeth ysgrifenedig](#), [Chwarae Teg, tystiolaeth ysgrifenedig](#), [The Wallich, tystiolaeth ysgrifenedig](#)

¹¹⁵ [Cymorth i Ferched Cymru, tystiolaeth ysgrifenedig](#)

¹¹⁶ [Y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol, 14 Tachwedd 2022, Cofnod y Trafodion, paragraff 235.](#)

114. Nododd Coleg Brenhinol y Therapyddion Iaith a Lleferydd y bydd menywod ag anghenion cyfathrebu yn wynebu rhwystrau ar bob cam o'r llwybr cyfiawnder troseddol.¹¹⁷

115. Roedd Triniaeth Deg i Fenywod yng Nghymru (FTWW) yn dadlau bod rhagdybiaethau o alluoedd yn parhau yn y system cyfiawnder troseddol, fel sy'n bodoli yn y gymdeithas yn ehangach. Maent yn nodi bod diffyg ymwybyddiaeth o'r mathau amrywiol o namau a'u heffaith a methiant i gynnig cymorth priodol yn gallu gwneud lleoliadau gwarchodol yn arbennig o heriol i'r rhai dan sylw, ac maent yn galw am hyfforddiant gorfodol ar ymwybyddiaeth o anabledd, a ddylai gynnwys materion iechyd sy'n benodol i fenywod.¹¹⁸

116. Cyfeiriodd y Bwrdd Monitro Annibynnol (IMB) yn CEF Eastwood Park at arolwg o garcharorion lleiafrifol a gynhaliwyd ym mis Mehefin 2021, mewn prosiect ar y cyd â'r Gynghrair Cyfiawnder Troseddol ac IMBs ar draws ystâd carchardai menywod. Roedd yr arolwg yn cynnwys gwladolion tramor a menywod o gefndir Sipsiwn, Roma a Theithwyr. Ar adeg yr arolwg, roedd 44 o garcharorion o fewn cwmpas Eastwood Park, a chafodd y Bwrdd 30 o ymatebion i'r arolwg. Er bod rhai enghreifftiau o ryngweithio cadarnhaol rhwng carcharorion a staff, dywedodd bron i hanner yr ymatebwyr nad oedd y carchar yn deall eu hanghenion diwylliannol neu eu hanghenion ychwanegol eraill yn dda.¹¹⁹

117. Ychydig iawn o wybodaeth oedd gan gyfranwyr i'n grwpiau ffocws am eu hawliau i gael cymorth, a phwy allai eu cefnogi i gael mynediad at yr hawliau hynny. Awgrymwyd y gallai codi ymwybyddiaeth ynghylch rôl Aelodau etholedig a chymorth i gael mynediad iddynt fod yn fuddiol.¹²⁰

Effaith carcharu mamau ar blant

118. Yn ôl ffigurau gan yr Ymddiriedolaeth Diwygio Carchardai, amcangyfrifir fod 17,000 o blant yn cael eu heffeithio gan garcharu mamau bob blwyddyn.¹²¹ Mae ffigurau hefyd yn awgrymu ar gyfartaledd bod 600 o fenywod beichiog yn cael eu cadw yn y carchar bob blwyddyn.

119. Mae chwe Uned Mamau a Babanod mewn carchardai yn Lloegr lle gall menywod wneud cais i aros os oes ganddynt blentyn sy'n iau na 18 mis oed pan eu bod yn mynd i'r carchar, neu'n rhoi genedigaeth yn y carchar. Mae Unedau Mamau a Babanod ar gael yn CEF Eastwood Park a CEF Styal.

¹¹⁷ Coleg Brenhinol y Therapyddion Iaith a Lleferydd, tystiolaeth ysgrifenedig

¹¹⁸ Triniaeth Deg i Fenywod yng Nghymru, tystiolaeth ysgrifenedig

¹¹⁹ Bwrdd Monitro Annibynnol CEF Eastwood Park, tystiolaeth ysgrifenedig

¹²⁰ Crynodeb o'r gwaith ymgysylltu

¹²¹ Ymddiriedolaeth Diwygio Carchardai, Why focus on reducing women's imprisonment?, Gorffennaf 2021

120. Roedd ein tystion yn cydanbod yn eang effaith dedfrydau o garchar ar deuluoedd. Gan nad oes unrhyw garchardai i fenywod yng Nghymru, bydd menywod sydd yn y ddalfa yn aros 100 milltir o'u cartrefi ar gyfartaledd; mae'r pellter hwn rhwng y fam a'r plentyn, y costau cysylltiedig a'r pwysau amser ar ofalwyr, yn effeithio ar nifer yr ymweliadau a'r trawma a brofir gan blant.

121. Yn ôl lechyd Cyhoeddus Cymru:

*"[...] one of the things that we're very clear about from a public health perspective is that the experience of motherhood in custody, whatever that may look like, whether it's pregnancy, whether it's actually having the child or whether there are children at home who need to maintain access, at the moment, with women being placed in prisons in England, it's not working for women."*¹²²

122. Cyfeiriodd nifer o dystion, gan gynnwys y Coleg Nyrsio Brenhinol, at yr heriau ychwanegol o ganlyniad i garcharu mamau.¹²³ Nododd Coleg Brenhinol y Seicatriyddion yng Nghymru: "Women need to retain links with their children in order to break the cycle of trauma which too often leads to the disintegration of lifetimes and families."¹²⁴ Ategwyd hyn gan Ymddiriedolaeth Nelson:

*"Research indicates that children who have experienced maternal imprisonment are at greater risk of unemployment, addiction and of coming into contact themselves with the criminal justice system in later life."*¹²⁵

123. Cyfeiriodd Clinks ac lechyd Cyhoeddus Cymru at y gwasanaeth Ymweld â Mam, sy'n darparu cymorth i blant yng Nghymru ymweld â'u mamau yn y carchar. Dywedodd lechyd Cyhoeddus Cymru wrthym, er bod y gwasanaeth yn dangos arwyddion cadarnhaol o ran profiad menywod sydd â mynediad at eu plant, mae angen ei werthuso'n ffurfiol.¹²⁶ Mae'r gwasanaeth yn seiliedig ar gynllun peilot tair blynedd, a grëwyd gan PACT (Ymddiriedolaeth Cyngor a Gofal Carchardai) ac a oedd yn cael ei redeg mewn partneriaeth â CEF Eastwood Park rhwng 2014 a 2017.¹²⁷

¹²² Y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol, 14 Tachwedd 2022, Cofnod y Trafodion, paragraff 101

¹²³ Coleg Nyrsio Brenhinol, tystiolaeth ysgrifenedig

¹²⁴ Coleg Brenhinol Seicatriyddion Cymru, tystiolaeth ysgrifenedig

¹²⁵ Ymddiriedolaeth Nelson, tystiolaeth ysgrifenedig

¹²⁶ Y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol, 14 Tachwedd 2022, Cofnod y Trafodion, paragraff 102

¹²⁷ Prifysgol Caerdydd, Adroddiad terfynol Mehefin 2017: Gwerthusiad o'r Cynllun Ymweld â Mam, Mehefin 2017

124. Roedd cyfranwyr yn ein grwpiau ffocws yn gadarnhaol ar y cyfan am y gwasanaeth Ymweld â Mam, a chlywsom enghreifftiau penodol o sut roedd wedi helpu i ailfeithrin cysylltiadau teuluol. Fodd bynnag, cododd eraill bryderon ynghylch pellter a chostau teithio. Nododd un: "Mae fy nheulu ar fudd-daliadau ... sut allan nhw ddod i fyny yma."¹²⁸

125. Roedd Clinks yn dadlau bod yna ddiffyg hyblygrwydd o amgylch modelau, nad yw'n caniatáu ystyried anghenion plentyn unigol.¹²⁹

Gofal iechyd a chamddefnyddio sylweddau

126. Nododd y Coleg Nyrsio Brenhinol yr anawsterau o gael mynediad at ofal iechyd i fenywod sy'n byw yng Nghymru ond sydd yn y carchar yn Lloegr, gan nodi problemau gyda rhannu cofnodion cleifion, oedi wrth dderbyn triniaeth a pharhad triniaeth yng Nghymru a gafodd ei rhagnodi tra yn y carchar yn Lloegr.¹³⁰

127. Mae ffigurau gan yr Ymddiriedolaeth Diwygio Carchardai yn nodi bod menywod yn y carchar yn fwy tebygol na dynion o adrodd bod ganddynt broblem cyffuriau neu alcohol wrth iddynt gyrraedd y carchar (46 y cant/28 y cant o fenywod o'u cymharu â 27 y cant / 17 y cant o ddynion).¹³¹

128. Esboniodd carcharorion yn ein grwpiau ffocws fod llawer o fenywod â phroblemau camddefnyddio sylweddau presennol yn profi diddyfnu ar ôl cyrraedd y carchar oherwydd oedi cyn cael meddyginiaeth. Eglurodd un fod angen methadon arni ond bod yn rhaid iddi aros; disgrifiodd ei bod hi'n crynu drwyddi wrth aros am y methadon.

129. Gwnaethon nodi pryder penodol gyda'r Gweinidog nad oedd menywod o Gymru wedi gallu cael gafael ar Buvidal (meddyginiaeth a ddefnyddir i drin dibyniaeth ar gyffuriau opioid) pan oeddent yn y ddalfa yn Lloegr, o ganlyniad i ddarpariaeth wahanol ar draws ardaloedd Ymddiriedolaethau'r GIG. Cadarnhaodd y Gweinidog ei bod wedi codi'r mater gyda Damien Hinds, Gweinidog Gwladol y Weinyddiaeth Gyfiawnder, a dywedodd bod swyddogion yn ymgymryd â gwaith yn y maes hwn i wella'r ffordd y caiff llwybrau eu gweithredu. Dywedodd wrthym y byddai'n parhau i fynd ar drywydd hyn fel rhan o'i gwaith ymgysylltu parhaus â'r Gweinidog.¹³²

¹²⁸ Crynodeb o'r gwaith ymgysylltu

¹²⁹ Y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol, 24 Hydref 2022, Cofnod y Trafodion, paragraffau 119-120

¹³⁰ Coleg Nyrsio Brenhinol, tystiolaeth ysgrifenedig

¹³¹ Ymddiriedolaeth Diwygio Carchardai, Why focus on reducing women's imprisonment?, Gorffennaf 2021

¹³² Llythyr oddi wrth y Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol, 19 Ionawr 2023

130. Dywed Asiantaeth Diogelwch Iechyd y DU (HSA) fod gan garchardai sydd â chyfran uwch o fenywod o Gymru rai o'r canlyniadau gwaethaf o ran nifer y menywod sy'n llwyddo i gwblhau rhaglenni triniaeth ar gyfer cyffuriau ac alcohol.¹³³ Cyfeiriodd Dr Chantal Edge at adolygiad sydd ar y gweill gan GIG Lloegr i iechyd a gofal cymdeithasol carchardai menywod, y disgwylir iddo gael ei gyhoeddi yn hydref 2022, a chadarnhaodd y bydd yn cynnwys pennod ar gamddefnyddio sylweddau.¹³⁴ Nododd fod UK HSA yn bartner yn yr adolygiad, a bod yr adolygiad wedi bod yn aml-ddisgyblaethol iawn. Ychwanegodd nad oedd yn gyfarwydd â gwybodaeth benodol am fenywod o Gymru fel rhan o'r adolygiad, ond nododd nad oedd yn golygu nad oedd menywod Cymru wedi cael eu hystyried fel rhan o weithgorau eraill.¹³⁵

Dadwenwyno preswyl

131. Cododd sawl tyst yr angen am ddadwenwyno preswyl. Dywedodd Ymddiriedolaeth Nelson y dylid cael ystod o opsiynau addas ar gyfer y rhai sydd â dibyniaeth ar sylweddau. Roedd yn awgrymu, mewn sefyllfaoedd lle mai'r defnydd o gyffuriau ac alcohol yw'r prif ffactor sy'n ysgogi troseddu, dylai menywod gael yr opsiwn o adsefydlu preswyl.¹³⁶

132. Cyfeiriodd HMPPS at Ganolfan Adferiad Gellinudd, sef cyfleuster iechyd meddwl preswyl a gynhelir gan Hafal yng Nghastell-nedd fel enghraifft o arfer da.¹³⁷

133. Gan gyfeirio at ddadwenwyno preswyl, eglurodd Clinks:

"There is also very good evidence around residential detoxification and rehab centres for women, including one run by the Nelson Trust, just at the other side of the English-Welsh border. [...] there is very strong evidence about having good community-led, community-based services meeting the identified needs of women in contact with your local criminal justice system."¹³⁸

¹³³ Asiantaeth Diogelwch Iechyd y DU, [tystiolaeth ysgrifenedig](#)

¹³⁴ Y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol, 14 Tachwedd 2022, Cofnod y Trafodion, paragraff 74

¹³⁵ Y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol, 14 Tachwedd 2022, Cofnod y Trafodion, paragraff 84

¹³⁶ Ymddiriedolaeth Nelson, [tystiolaeth ysgrifenedig](#)

¹³⁷ Y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol, 14 Tachwedd 2022, Cofnod y Trafodion, paragraff 265

¹³⁸ Y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol, 24 Hydref 2022, Cofnod y Trafodion, paragraff 50

Safbwynt Llywodraeth Cymru

Carcharu mamau

134. Mae cefnogi menywod o Gymru i feithrin a chynnal perthnasoedd teuluol cadarnhaol a helpu i liniaru effaith carcharu rhieni ar blant yn flaenoriaeth allweddol yn y Glasbrint.

135. Mae tystiolaeth ysgrifenedig Llywodraeth Cymru yn tynnu sylw at y gwasanaeth Ymweld â Mam, sy'n cael ei ariannu ar y cyd gan Lywodraeth Cymru a HMPPS a'i redeg gan PACT.¹³⁹ Dywedodd y Gweinidog wrthym fod y gwasanaeth yn nodi menywod sydd mewn perygl o golli cysylltiad â'u plant ac yn cynnig cymorth arbenigol i gadw a chryfhau cysylltiadau teuluol. Cefnogodd y gwasanaeth 68 o deuluoedd a 130 o blant rhwng mis Gorffennaf 2021 a diwedd Awst 2022.¹⁴⁰

136. Nododd y Gweinidog hefyd fod ymweliadau 'purple visits' o bell wedi'u cyflwyno yn ystod y pandemig er mwyn sicrhau cyswllt parhaus yn ogystal â chyswllt o bell rhwng mamau yn y system cyfiawnder troseddol a'u plant.¹⁴¹

137. Gwnaethom ofyn i'r Gweinidog pa ganllawiau ymarferol sydd ar gael i awdurdodau lleol a gwasanaethau cymdeithasol i sicrhau bod plant a menywod yn cael eu haduno mewn ffordd sy'n canolbwyntio ar y plentyn. Cadarnhaodd nad oedd unrhyw ganllawiau ymarfer penodol yn bodoli ond bod canllawiau yn cael eu darparu yn unol â *Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014*, Rhan 6 Cod Ymarfer (Plant sy'n Derbyn Gofal a Phlant sy'n cael eu Lletya). Aeth yn ei blaen i ddweud:

*"This Code of Practice includes principles that Local Authorities should work in partnership with the family and the child or young person to enable them to be reunited with the family where possible, provided that this is consistent with the individual child's well-being. The child's well-being is the paramount consideration at all times and each child's views, wishes and needs for contact should be individually considered and regularly assessed."*¹⁴²

¹³⁹ Llywodraeth Cymru, [papur tystiolaeth](#)

¹⁴⁰ [Llythyr oddi wrth y Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol, 19 Ionawr 2023](#)

¹⁴¹ Llywodraeth Cymru, [papur tystiolaeth](#)

¹⁴² [Llythyr oddi wrth y Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol, 19 Ionawr 2023](#)

Gofal iechyd a chamddefnyddio sylweddau

138. Gwnaethom ofyn i'r Gweinidog am lefel y cymorth ar gyfer menywod sy'n dod i mewn i'r system cyfiawnder troseddol, sydd â dibyniaeth ar gyffuriau fel eu prif ffactor. Dywedodd wrthym:

*"The main substance misuse services within Wales for women entering the criminal justice system are commissioned by HM Prison and Probation Service (HMPPS). HMPPS is represented on all the Area Planning Boards (APBs) who are responsible for conducting needs assessments and the commissioning and monitoring of substance misuse services."*¹⁴³

139. Nododd y Gweinidog fod Llywodraeth Cymru wedi ymgynghori'n ddiweddar ar Fframwaith Triniaethau Camddefnyddio Sylweddau (SMTF) ar gyfer Carchardai, sy'n ymdrin yn benodol ag anghenion menywod, a'i fod yn cynnwys camau gweithredu i sicrhau parhad gofal ar ddechrau dedfryd o garchar ac ar ôl rhyddhau. Ychwanegodd: "Given that custodial sentences mean women will serve their sentences outside Wales, we are aware of the challenges this presents."¹⁴⁴

Ein barn ni

Mae angen i fenywod sy'n gorfod treulio dedfryd o garchar gael mynediad at gymorth priodol. Roeddem yn bryderus o glywed am yr amodau a adroddwyd o ganlyniad i'r arolygiad yn CEF Eastwood Park a nodwn fod y Gweinidog wedi ceisio cael cyfarfodydd brys i fynd i'r afael â'r materion a godwyd.

Roeddem yn siomedig o glywed cyn lleied o'r merched y siaradom â nhw oedd â syniad clir am eu hawliau i gael cymorth. Wrth edrych ar rôl Aelodau o'r Senedd, nid oedd y menywod wedi ystyried y byddai hwn yn opsiwn a oedd ar gael iddynt a dywedasant y gallai codi ymwybyddiaeth ynghylch rôl Aelodau etholedig a'r cymorth sydd ar gael iddynt fod yn fuddiol. Dylai Llywodraeth Cymru drafod â PACT i sicrhau bod carcharorion yn cael gwybod am y cymorth sydd ar gael iddynt, gan gynnwys sut i gysylltu ag Aelodau etholedig o'u hetholaethau cartref, i sicrhau bod pobl yn cael mynediad cyfartal at y gwasanaethau y mae ganddynt hawl iddynt.

Argymhelliad 12. Dylai Llywodraeth Cymru drafod â'r Ymddiriedolaeth Cyngor a Gofal Carchardai (PACT) i sicrhau bod carcharorion yn cael gwybod am y cymorth sydd ar gael

¹⁴³ Llythyr oddi wrth y Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol, 19 Ionawr 2023

¹⁴⁴ Llythyr oddi wrth y Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol, 19 Ionawr 2023

iddynt, gan gynnwys sut i gysylltu ag Aelodau etholedig o'u hetholaethau cartref, i sicrhau bod pobl yn cael mynediad cyfartal at y gwasanaethau y mae ganddynt hawl iddynt.

Carcharu mamau

Ni ellir gorbwysleisio effaith andwyol carcharu mamau ar yr unigolyn a'u teuluoedd.

Mae'r gwasanaeth Ymweld â Mam yn chwarae rhan hanfodol wrth gadw cysylltiad rhwng menywod a'u plant. Fodd bynnag, nid yw'n ateb a fydd yn addas i bob teulu. Dylid gwerthuso'r gwasanaeth yn ffurfiol gyda'r bwriad o ddysgu o brofiadau menywod ac archwilio sut y gellir plethu mwy o hyblygrwydd i anghenion teuluoedd unigol.

Cyfeiriodd y Gweinidog hefyd at yr ymweliadau 'purple visits' sydd wedi'u cynllunio i sicrhau bod teuluoedd yn cadw mewn cysylltiad o bell ac a sefydlwyd yn ystod y pandemig. Clywsom farn gymysg gan fenywod yn y carchar am y gwasanaeth, gyda rhai yn dweud wrthym eu bod wedi cael problemau gyda chysylltiadau ac eraill yn nodi nad oedd digon o staff ar gael i helpu gyda'r gweithgaredd. Mae cysylltiadau o'r fath yn hanfodol i deuluoedd nad ydynt yn gallu teithio, ac felly dylai Llywodraeth Cymru ymgysylltu â'r Weinyddiaeth Gyfiawnder a HMPPS i sicrhau bod adnoddau digonol ar gael i roi mwy o flaenoriaeth i'r gwaith hwn.

O ran helpu i ailsefydlu menywod i fywyd teuluol mewn ffordd sy'n canolbwyntio ar y plentyn, nodwn fod canllawiau ar gael i awdurdodau lleol drwy Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014. Fodd bynnag, o ystyried natur benodol aduno menywod â'u plant yn dilyn dedfryd o garchar, rydym o'r farn bod lle i sicrhau bod canllawiau mwy pwrpasol ar gael.

Argymhelliad 13. Dylai Llywodraeth Cymru weithio gyda'r Weinyddiaeth Gyfiawnder a Gwasanaeth Carchardai a Phrawf EF i:

- gynnal gwerthusiad ffurfiol o'r prosiect Ymweld â Mam;
- asesu a oes digon o adnoddau ar gael i hwyluso gwaith sy'n galluogi teuluoedd i gadw mewn cysylltiad fel ymweliadau 'purple visits'.

Argymhelliad 14. Dylai Llywodraeth Cymru greu canllawiau wedi'u teilwra ar gyfer awdurdodau lleol i sicrhau bod menywod yn cael eu haduno â'u plant mewn ffordd sy'n canolbwyntio ar y plentyn yn dilyn dedfryd o garchar.

Gofal iechyd a chamddefnyddio sylweddau

Roeddem yn arbennig o bryderus o glywed am yr anawsterau y mae menywod yn eu hwynebu wrth gael mynediad at feddyginiaethau i helpu gyda thriniaeth adsefydlu cyffuriau. Mae'n hanfodol cael dull mwy cydgyssylltiedig.

Roeddem yn falch bod y Gweinidog eisoes wedi cymryd camau i fynd i'r afael â mater penodol mynediad at Buvidal gyda Llywodraeth y DU a dylai Llywodraeth Cymru barhau i roi'r wybodaeth ddiweddaraf inni am y mater hwn.

Clywsom am fanteision dadwenwyno preswyl, ac awgrymodd y menywod y siaradasom â hwy nad oedd ganddynt fynediad parod at gynlluniau dadwenwyno. Rydym yn ymwybodol bod cynlluniau o'r fath yn bodoli yng Nghymru, fel Canolfan Breswyl Brynawel. Gallant chwarae rhan ataliol bwysig, yn ogystal â helpu menywod ar ôl iddynt gael eu rhyddhau o'r carchar. Dylai Llywodraeth Cymru nodi pa ddarpariaeth ddadwenwyno breswyl sydd ar gael i fenywod yn y system cyfiawnder troseddol, a sut y caiff ei darparu.

Roeddem yn siomedig nad oeddem yn gallu ystyried adolygiad GIG Lloegr o iechyd a gofal cymdeithasol carchardai menywod fel rhan o'n gwaith casglu tystiolaeth. Mae gennym bryderon hefyd na fydd yr adolygiad yn rhoi digon o sylw i arfer gorau clinigol yng Nghymru ac anghenion menywod Cymru yn y carchar. Dylai Llywodraeth Cymru rannu ei barn ar yr adolygiad ar ôl iddo gael ei gyhoeddi a nodi a yw'n bwriadu gweithredu o ganlyniad i'w ganfyddiadau.

Argymhelliad 15. Dylai Llywodraeth Cymru nodi pa ddarpariaeth ddadwenwyno breswyl sydd ar gael i fenywod yn y system cyfiawnder troseddol, a sut y caiff ei darparu.

Argymhelliad 16. Dylai Llywodraeth Cymru rannu ei barn ar yr adolygiad sydd ar y gweill gan GIG Lloegr ar ôl iddo gael ei gyhoeddi a nodi unrhyw gamau y mae'n bwriadu eu cymryd o ganlyniad i ganfyddiadau'r adolygiad hwnnw.

5. Cymorth ailsefydlu

Mae data a gasglwyd gan Women in Prison yn tynnu sylw at y realiti llwm i fenywod pan fyddant yn gadael y carchar, yn enwedig y rhai sy'n bwrw dedfrydau byrrach y maent yn dweud eu bod yn fwy tebygol o gael eu hysgubo nôl i'r system cyfiawnder troseddol na'r rhai sy'n bwrw dedfrydau cymunedol.¹⁴⁵

140. Dengys ffigurau y bydd 56.1 y cant o fenywod sydd wedi bwrw dedfryd o garchar yn aildroseddu o fewn blwyddyn. Mae'r ffigur hwn yn codi i 70.7 y cant o fenywod sydd wedi'u rhyddhau yn dilyn dedfryd fer o garchar am lai na 12 mis.¹⁴⁶

141. Esboniodd cyfranwyr yn ein grwpiau ffocws sydd â phrofiad o gael eu rhyddhau o'r carchar mai ychydig iawn o gefnogaeth sydd i fenywod unwaith y daw eu dedfryd i ben. Dywedodd rhai mai'r prif reswm eu bod wedi aildroseddu oedd y diffyg cymorth a gawsant ar ôl cael eu rhyddhau.

*"Rwy'n teimlo y dylen ni, fel carcharorion, gael mwy o wasanaethau . . . Yn aml iawn byddaf yn meddwl, pam na alla' i fynd yn ôl? Roeddwn i'n ddiogel yno [y carchar], roedd gen i bobl o'm cwmpas, roedd fy iechyd meddwl yn well."*¹⁴⁷

142. Dywedodd cyfranwr arall wrthym:

*"Mae rhai o'r merched sydd wedi aildroseddu, wedi gwneud hynny oherwydd eu bod yn teimlo mai'r merched y tu mewn yw eu teulu. . . oherwydd does ganddyn nhw fawr ddim y tu allan."*¹⁴⁸

¹⁴⁵ Women in Prison, The Corston Report: 10 years on, Mehefin 2017.

¹⁴⁶ Y Weinyddiaeth Gyfiawnder, Female Offender Strategy: Supporting data tables, 2018.

¹⁴⁷ Crynodeb o'r gwaith ymgysylltu

¹⁴⁸ Crynodeb o'r gwaith ymgysylltu

143. Clywsom bryderon hefyd na fyddai gwasanaethau'n ymgysylltu â menywod tan ychydig ddyddiau cyn eu rhyddhau,¹⁴⁹ a nododd cyfranwyr pa mor bwysig bod unrhyw gymorth sydd ar gael tra bod menywod yn y carchar yn cael ei adlewyrchu ar ôl iddynt adael.

Llety

144. Pan fydd menyw yn cael dedfryd o garchar, hyd yn oed un fer, mae'n aml yn wynebu colli ei chartref. O ganlyniad, bydd llawer yn wynebu anawsterau wrth gael mynediad i lety addas pan fyddant yn gadael y carchar. Gall hyn yn ei gwneud hi'n anoddach iddynt gael mynediad at wasanaethau cymorth, cael swydd, ailsefydlu cyswllt gyda phlant a theuluoedd ac ail-integreiddio i'r gymuned.

145. Cafodd llety ar ôl rhyddhau o'r carchar ei nodi fel mater o bwys yn ystod ein sesiynau grŵp ffocws. Esboniodd nifer o gyfranwyr eu bod yn pryderu ynghylch ble y byddent yn byw ar ôl cael eu rhyddhau, ac yn ôl un cyfrannwr roedd fel "cael ei thafllu i ganol y siarcod."¹⁵⁰

146. Mae Safleoedd Cymeradwy (APs) yn eiddo sydd wedi'u cymeradwyo o dan Adran 13 o *Ddeddf Rheoli Troseddwyr 2007*, sy'n darparu goruchwyliaeth ddwys i bobl sy'n dangos risg uchel neu uchel iawn o niwed difrifol. Fe'u defnyddir yn bennaf ar gyfer pobl ar drwydded, ond maent hefyd yn cynnig llety i nifer fach o bobl ar fechniaeth neu sydd yn bwrw dedfrydau cymunedol. Ar hyn o bryd nid oes unrhyw Safleoedd Cymeradwy i fenywod yng Nghymru; mae un ym Mryste. Dywedodd HMPPS wrthym fod y rhan fwyaf o fenywod yn cael eu hystyried yn risg isel a bod Safleoedd Cymeradwy yn cael eu hystyried yn bennaf ar gyfer y rhai sy'n cael eu hystyried yn risg uchel ar ôl eu rhyddhau, felly er mwyn diwallu anghenion menywod Cymru dylent allu cael mynediad i Safleoedd Cymeradwy a llety â chymorth.¹⁵¹

147. Nododd Cymru Ddiogelach:

*"Barriers to appropriate accommodation, such as women's specific needs (e.g. substance use, mental health) and the stigma relating to women who have been involved with the CJS, reduce opportunities for women to live safer, healthier lives. The demand for housing in Wales is huge, however unsuitable accommodation for women when they are at their most vulnerable creates a toxic situation. The availability of appropriate accommodation, with attached specialist services is essential."*¹⁵²

¹⁴⁹ [Crynodeb o'r gwaith ymgysylltu](#)

¹⁵⁰ [Crynodeb o'r gwaith ymgysylltu](#)

¹⁵¹ [Nodyn o Gyfarfod – Gwasanaeth Carchardai a Phrawf ei Mawrhydi \(HMPPS\) Ionawr 2023](#)

¹⁵² Cymru Ddiogelach, [tystiolaeth ysgrifenedig](#)

148. Pan oedd cyfranwyr yn ein grwpiau ffocws yn trafod y math o gymorth yr hoffent ei weld i fenywod ar ôl eu rhyddhau o'r carchar, roedd atebion posibl yn amrywio. Roedd rhai cyfranwyr o'r farn y dylai cyllid fod ar gael i dalu am hanfodion fel rhent y mis cyntaf a bond, tra bod eraill yn dweud y dylid cynnig llety hunangynhwysol yn debyg i'r hyn a gynnigir mewn llochesi i fenywod.¹⁵³

149. Roedd HMPPS yn cydnabod y broblem gyda'r stoc dai ledled Cymru a chadarnhaodd fod HMPPS yn gweithio gydag awdurdodau lleol i helpu i ddatrys y broblem.¹⁵⁴

150. Cadarnhaodd HMPPS yn ddiweddarach eu bod yn gweithio ar gael Cytundebau Lefel Gwasanaeth gyda'r 22 awdurdod lleol yng Nghymru i ddarparu llety am 84 diwrnod.¹⁵⁵ Fodd bynnag, nodwyd bod y cynnydd wedi bod yn araf ac mai ychydig o awdurdodau lleol oedd wedi ymgysylltu â nhw hyd yma. Dywedodd HMPPS y byddai hyn yn eu gorfodi i ddefnyddio llety yn y sector preifat, yn aml mewn cystadleuaeth ag awdurdodau lleol, neu edrych ar ffyrdd o adeiladu tai ychwanegol.

Safbwynt Llywodraeth Cymru

151. Mae papur y Gweinidog yn nodi:

*"Mae'r Ddalfa ac Ailsefydlu yn un o feysydd thematig y Glasbrint. Mae'r ffrwd waith hon yn rhoi ffocws penodol ar fenywod Cymru mewn carchardai a'r rheini sy'n cael eu hailsefydlu yng Nghymru."*¹⁵⁶

152. Mae'n ychwanegu bod y ffrwd waith hon yn cynnwys:

- gweithio gyda gwasanaethau adsefydlu i ddarparu ymyriadau effeithiol cyn ac ar ôl rhyddhau mewn carchardai lle mae menywod wedi'u lleoli;
- cryfhau llwybrau at gymorth i fenywod Cymru sy'n gadael y carchar ac sy'n cael eu hailsefydlu yng Nghymru – mae hyn yn cynnwys adeiladu ar seilwaith braenaru presennol i fenywod yng Nghymru;
- gweithio gyda phartneriaid iechyd i sicrhau bod anghenion iechyd menywod yn cael eu diwallu wrth iddynt gael eu rhyddhau o'r ddalfa.

¹⁵³ Crynodeb o'r gwaith ymgysylltu

¹⁵⁴ Y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol, 14 Tachwedd 2022, Cofnod y Trafodion, paragraff 154

¹⁵⁵ Nodyn cyfarfod gyda HMPPS, Ionawr 2023

¹⁵⁶ Llywodraeth Cymru, papur tystiolaeth

153. Gwnaethom ofyn i'r Gweinidog am ei chynlluniau ar gyfer mynediad at dai i fenywod sy'n gadael y ddalfa. Cyfeiriodd at waith sy'n cael ei wneud ar hyn o bryd gan Brifysgol Glyndŵr a Llamau i edrych ar anghenion llety, a nododd y caiff y canfyddiadau eu cyhoeddi yn gynnar yn 2023.¹⁵⁷

154. Cadarnhaodd y Gweinidog fod gan Lywodraeth Cymru gydgysylltydd iechyd a chyfiawnder newydd erbyn hyn ar gyfer eu Glasbrintiau, y gwnaeth ei ddisgrifio fel 'adnodd penodol i fenywod'. Ychwanegodd fod angen gwneud yn siŵr bod pethau'n cael eu gwneud iawn yng Nghymru, nid yn unig trwy waith dargyfeiriol, i gadw menywod allan o'r carchar, ond pan gânt eu hailsefydlu.¹⁵⁸

Ein barn ni

Mae'n hanfodol bod cymorth ailsefydlu yn effeithiol. Mae'r ffigurau ynghylch atgwmpo yn llwm, a byddant ond yn newid os caiff menywod eu cefnogi'n well ar ôl iddynt gael eu rhyddhau o'r ddalfa. Roeddem yn hynod bryderus o glywed gan fenywod a fyddai naill ai'n ddigartref ar ôl cael eu rhyddhau o'r carchar neu a fyddai'n cael eu rhoi mewn llety anaddas, gan gynnwys lle y gallent gael eu rhoi gyda phobl sy'n cam-drin.

Rydym yn deall y pwysau ar y stoc dai bresennol a'r galwadau ar awdurdodau lleol. Fodd bynnag, mae menywod sy'n cael eu rhyddhau o'r carchar yn grŵp o bobl sy'n agored iawn i niwed ac mae angen cymryd camau pellach i sicrhau nad ydynt yn cael eu rhoi mewn sefyllfaoedd sy'n eu gwneud yn agored i berygl a/neu mewn perygl o aildroseddu.

Clywsom bryderon dro ar ôl tro am y diffyg llety yn benodol, a nodwn fod gwaith yn mynd rhagddo i fynd i'r afael â hyn. Dylai Llywodraeth Cymru rannu canfyddiadau'r gwaith sy'n edrych ar anghenion llety a nodi sut y bydd yn dylanwadu ar bolisi a darpariaeth yn y dyfodol. Fel blaenoriaeth, dylai Llywodraeth Cymru weithio gyda HMPPS ac awdurdodau lleol i gael Cytundebau Lefel Gwasanaeth, archwilio opsiynau ar gyfer llety â chymorth i fenywod risg isel sy'n agored i niwed a gweithio gyda HMPPS i ddarparu safleoedd cymeradwy ar gyfer menywod risg uchel.

Dylai Llywodraeth Cymru hefyd edrych ar enghreifftiau eraill o arfer gorau ac arloesi i weld beth y gellid ei ddatblygu mewn meysydd lle mae prinder tai yn arbennig o aciwt, er enghraifft tai modiwlar.

¹⁵⁷ Y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol, 14 Tachwedd 2022, Cofnod y Trafodion, paragraff 101

¹⁵⁸ Y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol, 12 Rhagfyr 2022, Cofnod y Trafodion, paragraff 90

Argymhelliad 17. Dylai Llywodraeth Cymru weithio gyda Gwasanaeth Carchardai a Phrawf EF ac awdurdodau lleol i gael Cytundebau Lefel Gwasanaeth â'r 16 awdurdod lleol arall, archwilio opsiynau ar gyfer llety â chymorth i fenywod risg isel sy'n agored i niwed a gweithio gyda Gwasanaeth Carchardai a Phrawf EF i ddarparu safleoedd cymeradwy ar gyfer menywod risg uchel. Dylid gwneud y gwaith hwn cyn hydref 2023.

Argymhelliad 18. Dylai Llywodraeth Cymru edrych ar enghreifftiau o arfer gorau ac arloesi i weld pa atebion llety y gellid eu datblygu yng Nghymru.

Atodiad A: Rhestr o sesiynau tystiolaeth lafar

Rhoddodd y tystion a ganlyn dystiolaeth lafar i'r Pwyllgor ar y dyddiadau a nodir isod. Mae trawsgrifiadau o'r holl sesiynau tystiolaeth lafar ar gael ar [wefan y Pwyllgor](#).

Dyddiad	Enw a sefydliad
24 Hydref 2022	Anne Fox Clinks Emily Evison Yr Ymddiriedolaeth Diwygio Carchardai Andrea Coomber CB Cynghrair Howard er Diwygio Cosbau
14 Tachwedd 2022	Dee Montague-Coast Triniaeth Deg i Fenywod Cymru Jo Hopkins Iechyd Cyhoeddus Cymru (Hwb Cymorth Profiad Niweidiol yn ystod Plentyndod) Dr Chantal Edge Asiantaeth Diogelwch Iechyd y DU Nicola Davies Gwasanaeth Carchardai a Phrawf Ei Fawrhydi Victoria Harries Gwasanaeth Carchardai a Phrawf Ei Fawrhydi Emma Wools Dirprwy Gomisiynydd yr Heddlu a Throseddu ar gyfer De Cymru a Chadeirydd y Grŵp Menywod mewn Cyfiawnder yng Nghymru
21 Tachwedd 2022	Tom Franklin Cymdeithas yr Ynadon
12 Rhagfyr 2022	Jane Hutt, y Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol Llywodraeth Cymru Karin Phillips, Dirprwy Gyfarwyddwr Diogelwch Cymunedol Llywodraeth Cymru James Searle, Pennaeth y Tîm Trosedd a Chyfiawnder Llywodraeth Cymru

Atodiad B: Rhestr o'r dystiolaeth ysgrifenedig

Rhoddodd y bobl a'r sefydliadau a ganlyn dystiolaeth ysgrifenedig i'r Pwyllgor. Mae'r holl ymatebion i'r ymgynghoriad a gwybodaeth ysgrifenedig ychwanegol ar gael ar [wefan y Pwyllgor](http://wefan.y-pwyllgor).

Cyfeirnod	Sefydliad
WECJS 01	Cymorth i Ferched Cymru
WECJS 02	Coleg Brenhinol y Seiciatryddion
WECJS 03	Coleg Brenhinol yr Ymarferwyr Cyffredinol Cymru
WECJS 04	Bwrdd Monitro Annibynnol yn CEF Eastwood Park
WECJS 05	Chwarae Teg
WECJS 06	Coleg Brenhinol y Therapyddion Iaith a Lleferydd
WECJS 07	Cynghrair Howard er Diwygio Cosbau
WECJS 08	Triniaeth Deg i Fenywod Cymru
WECJS 09	Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru
WECJS 10	Dr Robert Jones, Prifysgol Caerdydd
WECJS 11	Comisiynydd Plant Cymru
WECJS 12	Ymddiriedolaeth Nelson
WECJS 13	Y Wallich
WECJS 14	Coleg Nyrsio Brenhinol Cymru
WECJS 15	Iechyd Cyhoeddus Cymru
WECJS 16	Yr Ymddiriedolaeth Diwygio Carchardai
WECJS 17	Dirprwy Gomisiynydd Heddlu a Throseddu De Cymru Emma Wools
WECJS 18	Gwasanaethau Carchardai a Phrawf EF
WECJS 19	Asiantaeth Diogelwch Iechyd y DU
WECJS 20	Llywodraeth Cymru

Atodiad C: Gwybodaeth ychwanegol

Teitl	Dyddiad
Gwasanaeth Carchardai a Phrawf EF – Gwybodaeth ychwanegol yn dilyn y sesiwn dystiolaeth	Ionawr 2023
Iechyd Cyhoeddus Cymru – Adroddiad Nodi Llwybrau Menywod at Droseddu	Tachwedd 2022
Cymdeithas Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol – Ceisiadau i unedau mamau a babanod yn y carchar: sut y gwneir penderfyniadau a rôl gwaith cymdeithasol	Tachwedd 2022
Canolfan Merched Gogledd Cymru – Cylchlythyr Braenaru i Fenywod	Hydref 2022
Adroddiad Cryno ar gyfer Gwerthuso Dull System Gyfan y Cynllun Braenaru i Fenywod a Gwasanaeth Ymyrraeth Gynnar 18-25	Ebrill 2022
Cymru Ddiogelach - Gwybodaeth Ychwanegol	Ionawr 2023
Nodyn cyfarfod gyda Gwasanaeth Carchardai a Phrawf EF, Ionawr 2023	Ionawr 2023